*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 123(2)(b) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U   D R A F F T

# 2024 Rhif (Cy. )

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

# Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau a Gymeradwywyd o ran Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 4 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 ("y Ddeddf") yn darparu bod rhaid i unigolion penodol sy'n rhoi triniaethau arbennig (fel y'u rhestrir yn adran 57 o'r Ddeddf) yng Nghymru gael eu trwyddedu gan awdurdod lleol.

Mae adran 69 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol bod triniaeth arbennig, a gynhelir yng nghwrs busnes, i'w rhoi mewn mangre neu mewn cerbyd a gymeradwywyd gan awdurdod lleol (oni bai nad yw'n ofynnol i'r fangre honno neu'r cerbyd hwnnw gael ei chymeradwyo neu ei gymeradwyo).

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn nodi o dan ba amgylchiadau y datgymhwysir y gofyniad bod rhaid i driniaeth arbennig gael ei rhoi mewn mangre neu mewn cerbyd sydd wedi ei chymeradwyo neu wedi ei gymeradwyo gan awdurdod lleol.

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch ceisiadau am dystysgrifau cymeradwyo sy'n ofynnol yn gyffredinol ar gyfer rhoi triniaeth arbennig, yng nghwrs busnes, mewn mangre neu mewn cerbyd, gan gynnwys y meini prawf y mae rhaid eu bodloni er mwyn i gais am dystysgrif gymeradwyo gael ei ganiatáu. Mae Rhan 3 hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch ffurf a chynnwys ffurflen gais.

Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch caniatáu neu wrthod cais am dystysgrif gymeradwyo.

Mae Rhan 5 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch ffurf a chynnwys tystysgrif gymeradwyo a ddyroddir gan awdurdod lleol wrth ganiatáu cais ar gyfer mangre neu gerbyd.

Mae Rhan 6 o'r Rheoliadau hyn yn nodi'r amodau cymeradwyo mandadol sy'n gymwys i dystysgrif gymeradwyo.

Mae Rhan 7 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch cais a wneir gan ddeiliad tystysgrif i'r awdurdod lleol i amrywio tystysgrif gymeradwyo.

Mae Rhan 8 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch cais a wneir gan ddeiliad tystysgrif i'r awdurdod lleol i adnewyddu tystysgrif gymeradwyo.

Mae Rhan 9 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch yr amgylchiadau y caiff deiliad tystysgrif wneud cais i'r awdurdod lleol am gopi o dystysgrif gymeradwyo odanynt, a'r modd y caiff wneud y cais hwnnw.

Mae Rhan 10 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch ffioedd mewn perthynas â thystysgrifau cymeradwyo.

Mae adran 72 o'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ynghylch terfynu tystysgrif gymeradwyo yn wirfoddol a'r hysbysiad y caiff deiliad y dystysgrif ei roi i'r awdurdod lleol. Mae Rhan 11 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch y gofynion hysbysu pan fydd hysbysiad yn cael ei roi gan ddeiliad tystysgrif i awdurdod lleol i derfynu tystysgrif gymeradwyo yn wirfoddol.

Mae Rhan 12 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn y mae rhaid i awdurdod lleol ei dilyn i roi hysbysiad i geisydd neu ddeiliad tystysgrif pan fo'r awdurdod lleol yn bwriadu gwrthod cais a wneir o dan y Rheoliadau hyn, a hawl y ceisydd neu'r deiliad tystysgrif hwnnw i gyflwyno sylwadau i'r awdurdod lleol ynghylch cynigion yr awdurdod lleol. Mae Rhan 12 hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch y gofyniad i awdurdod lleol hysbysu'r ceisydd neu ddeiliad y dystysgrif am ei benderfyniad.

Mae Rhan 13 yn gwneud darpariaeth ynghylch apêl yn erbyn gwrthod cais, gan gynnwys yr hawl i apelio i'r llys ynadon neu i Lys y Goron.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd

asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 123(2)(b) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U   D R A F F T

# 2024 Rhif (Cy. )

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau a Gymeradwywyd o ran Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | ***** |
| *Yn dod i rym* | *29 Tachwedd 2024* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 69(8) a (9), 70(3), (7), (8) a (9), 71(4), 72(5) ac 76(4) a (5) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 123(2)(b) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad(**2**).

(**1**) 2017 dccc 2 ("y Ddeddf"). *Gweler* adran 124(1) o'r Ddeddf am y diffiniad o "rheoliadau".

(**2**) Mae'r cyfeiriad yn adran 123 o'r Ddeddf at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).*Gweler* hefyd adran 40 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4) am ddarpariaeth ynghylch y weithdrefn sy'n gymwys i'r offeryn hwn.

# RHAN 1

## Cyffredinol

**Enwi a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau a Gymeradwywyd o ran Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 29 Tachwedd 2024.

**Dehongli**

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "aciwbigo" ("*acupuncture*") yr ystyr a roddir yn adran 94(1) o'r Ddeddf;

ystyr "amodau cymeradwyo mandadol" ("*mandatory approval conditions*") yw'r amodau a nodir yn Atodlenni 3 a 4;

ystyr "amodau cymeradwyo mandadol cymwys" ("*applicable mandatory approval conditions*") yw'r amodau cymeradwyo mandadol y mae tystysgrif gymeradwyo yn ddarostyngedig iddynt o ddyddiad dyroddi'r dystysgrif honno;

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") yw'r awdurdod lleol fel y'i diffinnir gan adran 124(1) o'r Ddeddf;

mae i "cerbyd" ("*vehicle*") yr ystyr a roddir yn adran 94(1) o'r Ddeddf;

ystyr "cleient" ("*client*") yw person y rhoddir triniaeth arbennig iddo;

ystyr "cyfnod y dystysgrif gymeradwyo" ("*approval certificate period*"), mewn perthynas â thystysgrif gymeradwyo, yw'r cyfnod y mae'r dystysgrif gymeradwyo yn awdurdodi rhoi triniaeth arbennig ynddo mewn mangre neu mewn cerbyd fel y'i nodir yn adran 70(5) o'r Ddeddf;

mae i "cyfweliad ymgeisio" ("*application interview*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 8(3);

mae i "deiliad trwydded" ("*licence holder*") yr ystyr a roddir yn adran 59(8)(b) o'r Ddeddf;

ystyr "deiliad tystysgrif" ("*certificate holder*") yw'r person y mae awdurdod lleol wedi cymeradwyo ei gais am dystysgrif gymeradwyo o dan adran 70 o'r Ddeddf ac y mae ei enw wedi ei restru ar y dystysgrif gymeradwyo;

mae i "dyddiad cymeradwyo" ("*approval date*") yr un ystyr ag yn adran 70(5) o'r Ddeddf;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017;

ystyr "ffi am gais" ("*application fee*") yw'r ffi a osodir gan yr awdurdod lleol i ddod gyda chais am dystysgrif gymeradwyo;

mae i "mangre" ("*premises*") yr ystyr a roddir yn adran 94(1) o'r Ddeddf;

ystyr "rhif y dystysgrif gymeradwyo" ("*approval certificate number*") yw'r cyfeirnod a roddir gan yr awdurdod lleol i'r dystysgrif gymeradwyo sy'n unigryw i'r dystysgrif honno, ac a bennir ynddi;

mae i "triniaeth arbennig" ("*special procedure*") yr ystyr a roddir yn adran 57 o'r Ddeddf;

mae i "tystysgrif gymeradwyo" ("*approval certificate*") yr un ystyr ag a roddir yn adran 70(1) o'r Ddeddf;

ystyr "tystysgrif gymeradwyo dros dro" ("*temporary approval certificate*") yw tystysgrif gymeradwyo sy'n awdurdodi rhoi triniaeth arbennig (neu driniaethau arbennig) mewn mangre neu gerbyd a gymeradwywyd am gyfnod nad yw'n hwy na saith niwrnod.

(2) Ac eithrio fel y darperir fel arall, mae gofyniad o dan y Rheoliadau hyn i roi hysbysiad (neu i hysbysu) yn ofyniad i roi hysbysiad ysgrifenedig.

(3) Mae dogfen y mae'n ofynnol iddi fod yn "ysgrifenedig", neu hysbysiad y mae'n ofynnol iddo fod yn "ysgrifenedig", yn rhinwedd y Rheoliadau hyn yn cynnwys cyfathrebiad electronig, fel y diffinnir "electronic communication" yn adran 15(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau Electronig 2000(**1**).

# RHAN 2

## Mangreoedd a cherbydau sydd wedi eu hesemptio

### Mangreoedd neu gerbydau sydd wedi eu hesemptio

**3.** Nid yw'r gofyniad yn adran 69(2) o'r Ddeddf fod rhaid i berson sy'n cynnal busnes y rhoddir triniaeth arbennig yng nghwrs y busnes hwnnw roi'r driniaeth honno mewn mangre neu gerbyd sydd wedi ei chymeradwyo neu ei gymeradwyo gan yr awdurdod lleol o dan adran 70 o'r Ddeddf yn gymwys mewn cysylltiad â'r canlynol—

(a) triniaeth aciwbigo a roddir i gleient mewn mangre neu gerbyd a ddefnyddir i unrhyw raddau gan y cleient hwnnw fel annedd;

(**1**) 2000 p. 7; diwygiwyd adran 15(1) gan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (p. 21).

(b) unrhyw driniaeth arbennig a roddir mewn sefydliad gofal iechyd annibynnol a reoleiddir.

**4.** Yn y rheoliad hwn—

mae "annedd" ("*dwelling*") yn cynnwys (ond nid yw'n gyfyngedig i)—

(a) "cartref gofal i oedolion", sydd â'r ystyr a roddir yn adran 28(1) o'r Ddeddf;

(b) "hosbis", sef mangre a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer darparu gofal lliniarol i bersonau sy'n dioddef o glefyd sy'n gwaethygu ac sydd yn ei gyfnodau olaf, gan neu ar ran sefydliad y mae darparu gofal o'r fath yn brif swyddogaeth iddo.

ystyr "sefydliad gofal iechyd annibynnol a reoleiddir" ("*regulated independent healthcare establishment*") yw—

(a) clinig annibynnol fel y diffinnir "independent clinic" gan adran 2(4) o Ddeddf Safonau Gofal 2000(**1**) ac fel y'i rhagnodir gan reoliad 4 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011(**2**);

(b) ysbyty annibynnol fel y diffinnir "independent hospital" gan adran 2(2) a (3) o Ddeddf Safonau Gofal 2000 ac fel y'i rhagnodir gan reoliad 3 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011;

(c) practis deintyddol preifat fel y'i diffinnir gan reoliad 3(1) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017(**3**).

## RHAN 3

## Cais am dystysgrif gymeradwyo

### Ffurf cais

**5.**—(1) Rhaid i bob cais am dystysgrif gymeradwyo ymwneud â naill ai—

(a) mangre unigol, neu

(b) cerbyd unigol.

(2) Rhaid i gais am dystysgrif gymeradwyo fod ar y ffurf a bennir yn Atodlen 1.

(3) Caniateir gwneud cais naill ai ar ffurf papur neu drwy ei gyflwyno yn electronig.

---

(**1**) 2000 p. 14.

(**2**) O.S. 2011/734 (Cy. 112), a ddiwygiwyd gan O.S. 2017/202 (Cy. 57); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

(**3**) O.S. 2017/202 (Cy. 57). *Gweler* rheoliad 4 o'r Rheoliadau hynny am ymgymeriadau nad ydynt yn bractisau deintyddol preifat.

(4) Yn achos tystysgrif gymeradwyo dros dro, rhaid gwneud cais o leiaf 28 o ddiwrnodau gwaith cyn y dyddiad cymeradwyo arfaethedig ar gyfer y dystysgrif gymeradwyo dros dro.

**Yr wybodaeth sydd i'w darparu gan y ceisydd**

**6.**—(1) Ar ôl cyflwyno cais am dystysgrif gymeradwyo ond cyn dyfarnu arno, rhaid i'r ceisydd ddarparu i'r awdurdod lleol unrhyw wybodaeth bellach y mae'r awdurdod lleol yn ystyried ei bod yn angenrheidiol i'w alluogi i ddyfarnu ar y cais.

(2) Rhaid i'r awdurdod lleol wrthod cais os yw'r ceisydd yn methu â darparu i'r awdurdod lleol yr wybodaeth y gofynnwyd amdani o dan baragraff (1).

**Y ffioedd sydd i ddod gyda chais**

**7.**—(1) Mae pa ffi am gais bynnag a osodir gan yr awdurdod lleol i ddod gyda chais.

(2) Mae'r ffi am gais (os oes un) i gael ei gosod gan yr awdurdod lleol, gan roi sylw i'r costau y mae'r awdurdod yn mynd iddynt neu y disgwylir i'r awdurdod fynd iddynt mewn cysylltiad ag ymdrin â cheisiadau o dan y Rheoliadau hyn.

(3) Nid yw cais am dystysgrif gymeradwyo i'w drin fel pe bai wedi ei wneud yn briodol hyd nes bod yr awdurdod lleol wedi cael y ffi am gais mewn arian cliriedig.

**Y meini prawf ar gyfer caniatáu tystysgrif gymeradwyo**

**8.**—(1) Mae'r meini prawf y mae rhaid i geisydd eu bodloni ar gyfer tystysgrif gymeradwyo er mwyn i'r cais gael ei ganiatáu wedi eu nodi ym mharagraffau (2) i (5).

(2) Rhaid i'r ceisydd—

(a) bod yn 18 oed neu'n hŷn,

(b) darparu tystiolaeth bod y ceisydd yn meddu ar Ddyfarniad Lefel 2 a reoleiddir yn llwyddiannus, ac

(c) cyflwyno plan o'r fangre neu'r cerbyd y mae'r cais yn ymwneud â hi neu ag ef, sy'n cydymffurfio â pharagraff (5).

(3) Rhaid i'r ceisydd ymgymryd â chyfweliad ymgeisio â'r awdurdod lleol, a'i basio, sy'n cynnwys cwestiynau a ofynnir gan yr awdurdod lleol ac a atebir gan y ceisydd, er mwyn dangos gwybodaeth y ceisydd am y materion a ganlyn—

(a) y dyletswyddau a osodir, o dan Ran 4 o'r Ddeddf neu yn rhinwedd y Rhan honno, ar ddeiliad tystysgrif,

(b) yr amodau cymeradwyo mandadol, ac

(c) goblygiadau peidio â chydymffurfio â'r amodau cymeradwyo mandadol.

(4) Rhaid i'r fangre neu'r cerbyd y mae'r cais yn ymwneud â hi neu ag ef—

(a) cael ei harolygu neu ei arolygu gan yr awdurdod lleol,

(b) cael ei chadw neu ei gadw mewn cyflwr da er mwyn galluogi rhoi'r driniaeth arbennig yn ddiogel ac yn hylan, ac

(c) adlewyrchu'r manylebau a ddarperir yn y plan sy'n dod gyda'r cais.

(5) Rhaid i'r plan sy'n dod gyda'r cais gynnwys (pan fo'n gymwys)—

(a) y mynedfeydd i'r fangre neu'r cerbyd a'r allanfeydd ohoni neu ohono,

(b) mesuriadau a disgrifiad o siâp y mannau (megis ystafelloedd) (os oes rhai) sydd yn y fangre neu'r cerbyd,

(c) y mynedfeydd i'r mannau (megis ystafelloedd) (os oes rhai) sydd yn y fangre neu'r cerbyd, a'r allanfeydd ohonynt,

(d) lleoliad y canlynol (os oes rhai)—

(i) sinciau cyfarpar,

(ii) biniau offer miniog,

(iii) ystafelloedd staff,

(iv) mannau, cyfleusterau neu ystafelloedd storio ar gyfer cynhyrchion a/neu gyfarpar,

(v) toiledau,

(vi) mannau neu ystafelloedd aros,

(vii) basnau golchi dwylo,

(viii) biniau gwastraff,

(ix) ffenestri, a

(x) gweithfannau.

(6) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "bin offer miniog" ("*sharps bin*") yw cynhwysydd anhyblyg, arbenigol sy'n cydymffurfio â Chod CGE 20 01 99([1]) ac sydd

(1) Cod chwe digid yw Cod Catalog Gwastraff Ewropeaidd ("CGE") a ddefnyddir i nodi gwastraff (gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus) fel y'i rhestrir yn y Catalog Gwastraff Ewropeaidd. Mae Cod CGE yn nodi (ymhlith pethau eraill) y rheolaethau sy'n gymwys i symud a rheoli'r gwastraff. Mae Cod CGE 20 01 99 yn ymwneud â gwastraff clinigol heintus a pheryglus fel y nodir ar dudalen 47, paragraff 4.99 o Femorandwm Technegol Iechyd Cymru. *Gweler* https://nwssp.nhs.wales/ourservices/specialist-estates-services/specialist-estates-services-documents/whtms-library/whtm-07-01-safe-management-of-healthcare-waste-pdf/ (ar gael yn Saesneg yn unig).

wedi ei gynllunio i waredu'n ddiogel offer miniog sy'n gysylltiedig â rhoi triniaethau arbennig;

ystyr "Dyfarniad Lefel 2 a reoleiddir" ("*regulated Level 2 Award*") yw Dyfarniad Lefel 2, a reoleiddir gan Gymwysterau Cymru(**1**), mewn Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Ymarferwyr Triniaethau Arbennig;

ystyr "gweithfan" ("*workstation*") yw'r rhan o'r man gwaith triniaethau arbennig sy'n cynnwys y canlynol—

(a) gwely, cadair neu gyffelyb, y mae cleient yn eistedd neu'n gorwedd arno neu arni i gael triniaeth arbennig a roddir gan ddeiliad trwydded,

(b) cadair neu stôl y mae deiliad y drwydded yn eistedd arni i roi'r driniaeth arbennig (os yw'n gymwys), ac

(c) arwyneb gwaith a ddefnyddir ar gyfer gosod a storio'r offerynnau a'r cynhyrchion a ddefnyddir gan ddeiliad y drwydded i roi'r driniaeth arbennig.

# RHAN 4

## Caniatáu neu wrthod tystysgrif gymeradwyo

### Caniatáu neu wrthod cais am dystysgrif gymeradwyo

**9.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo cais am dystysgrif gymeradwyo sy'n cymeradwyo mangre neu gerbyd wedi ei wneud i awdurdod lleol yn unol â Rhan 3.

(2) Os yw'r awdurdod lleol wedi ei fodloni bod yr holl feini prawf cymeradwyo a nodir yn rheoliad 8 wedi eu bodloni, rhaid i'r awdurdod lleol ganiatáu'r cais am dystysgrif gymeradwyo a dyroddi tystysgrif gymeradwyo i'r ceisydd, sy'n cymeradwyo mangre neu gerbyd mewn cysylltiad â rhoi triniaeth arbennig.

(3) Os nad yw'r awdurdod lleol wedi ei fodloni bod yr holl feini prawf cymeradwyo a nodir yn rheoliad 8 wedi eu bodloni, rhaid i'r awdurdod lleol roi hysbysiad i'r ceisydd bod y cais am dystysgrif gymeradwyo wedi ei wrthod i'r graddau y mae'n ymwneud â chymeradwyo'r fangre honno neu'r cerbyd hwnnw.

(4) Rhaid i'r hysbysiad—

(a) nodi'r rhesymau pam y mae'r awdurdod lleol yn gwrthod y cais, a

(**1**) Sefydlwyd Cymwysterau Cymru o dan adran 2 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 (dccc 5).

(b) datgan y caiff y ceisydd apelio o dan Rannau 12 a 13 yn erbyn y penderfyniad.

# RHAN 5

## Ffurf a chynnwys y dystysgrif gymeradwyo

### Ffurf a chynnwys y dystysgrif gymeradwyo

**10.**—(1) Rhaid i dystysgrif gymeradwyo fod ar y ffurf a nodir yn Atodlen 2.

(2) Bwriedir i'r testun sydd wedi ei gynnwys mewn bachau petryal yn y ffurflen yn Atodlen 2 fod yn ganllawiau.

(3) Rhaid atodi copi o'r amodau cymeradwyo mandadol cymwys i'r dystysgrif gymeradwyo.

(4) At ddibenion Atodlen 2, mae i'r termau "aciwbigo", "tyllu'r corff", "electrolysis" a "tatŵio" oll yr un ystyron ag a roddir yn adran 94(1) o'r Ddeddf.

# RHAN 6

## Amodau cymeradwyo mandadol

### Amodau cymeradwyo mandadol

**11.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gwneud darpariaeth ynghylch yr amodau cymeradwyo mandadol sydd i fod yn gymwys i dystysgrifau cymeradwyo, at ddibenion adran 70(3)(c) o'r Ddeddf.

(2) Mae tystysgrif gymeradwyo yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn Atodlen 3.

(3) Mae tystysgrif gymeradwyo dros dro yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn Atodlen 4.

# RHAN 7

## Amrywio tystysgrif gymeradwyo

### Cais i amrywio

**12.**—(1) Caiff awdurdod lleol, ar gais gan ddeiliad y dystysgrif, amrywio tystysgrif gymeradwyo.

(2) Rhaid i bob cais i amrywio tystysgrif gymeradwyo ymwneud â naill ai—

(a) mangre unigol, neu

(b) cerbyd unigol.

(3) Rhaid i gais i amrywio tystysgrif gymeradwyo—

(a) cael ei wneud i'r awdurdod lleol a ganiataodd y dystysgrif gymeradwyo,

(b) cael ei wneud naill ai ar ffurf papur neu drwy ei gyflwyno yn electronig,

(c) cynnwys manylion y newidiadau y bwriedir eu gwneud i'r dystysgrif gymeradwyo,

(d) cynnwys rhif tystysgrif gymeradwyo'r fangre neu'r cerbyd y mae'r cais yn ymwneud â hi neu ag ef, ac

(e) cynnwys datganiad wedi ei lofnodi gan ddeiliad y dystysgrif sy'n datgan, hyd eithaf ei wybodaeth, fod yr wybodaeth a ddarperir gan ddeiliad y dystysgrif yn y cais yn wir a bod deiliad y dystysgrif yn deall ei bod yn drosedd o dan adran 82(7) o'r Ddeddf i roi gwybodaeth sy'n anwir neu'n gamarweiniol (pa un ai'n fwriadol neu'n ddi-hid).

(4) Os yw cais i amrywio tystysgrif gymeradwyo yn ymwneud â newidiadau i strwythur neu ddyluniad y fangre neu'r cerbyd a nodir ar y dystysgrif gymeradwyo, rhaid iddo hefyd gynnwys—

(a) manylion y newidiadau arfaethedig sydd i'w gwneud yn y fangre neu yn y cerbyd, a

(b) plan wedi ei ddiweddaru sy'n ofynnol gan reoliad 8(2)(c) ac sy'n dangos yn glir y newidiadau arfaethedig hynny.

(5) O ran cais i amrywio tystysgrif gymeradwyo drwy ychwanegu disgrifiad o driniaeth arbennig y mae'r dystysgrif gymeradwyo i awdurdodi iddi gael ei rhoi—

(a) rhaid iddo bennu'r driniaeth arbennig o dan sylw, a

(b) mae i'w drin at ddibenion y Rhan hon fel pe bai'n gais i ddyroddi tystysgrif gymeradwyo sy'n awdurdodi i'r driniaeth honno gael ei rhoi (ac mae dyddiad yr amrywio i'w drin, o ran cymhwyso'r rheoliad hwn mewn cysylltiad â'r driniaeth honno, fel dyddiad dyroddi tystysgrif gymeradwyo sy'n awdurdodi i'r driniaeth gael ei rhoi).

(6) Nid yw paragraff (5)(b) yn gymwys at ddibenion dyfarnu ar y dystysgrif gymeradwyo.

**Yr wybodaeth sydd i'w darparu gan ddeiliad y dystysgrif**

**13.** Ar ôl cyflwyno cais i amrywio tystysgrif gymeradwyo ond cyn dyfarnu arno, rhaid i ddeiliad y dystysgrif—

(a) bodloni'r awdurdod lleol yn ystod arolygiad o'r fangre neu'r cerbyd fod yr amrywiadau arfaethedig yn y fangre a gymeradwywyd neu yn y cerbyd a gymeradwywyd yn adlewyrchu'r amrywiadau a ddisgrifir yn y cais i amrywio (os oes ei angen), a

(b) darparu gwybodaeth bellach fel sy'n ofynnol gan yr awdurdod lleol er mwyn iddo wneud dyfarniad.

### Y ffioedd sydd i ddod gyda chais i amrywio

**14.**—(1) Mae pa ffi am gais bynnag a osodir gan yr awdurdod lleol i ddod gyda chais i amrywio tystysgrif gymeradwyo.

(2) Mae'r ffi am gais (os oes un) i'w gosod gan yr awdurdod lleol, gan roi sylw i'r costau y mae'r awdurdod yn mynd iddynt neu y disgwylir i'r awdurdod fynd iddynt mewn cysylltiad ag ymdrin â cheisiadau i amrywio o dan y Rheoliadau hyn.

(3) Nid yw cais i amrywio tystysgrif gymeradwyo i'w drin fel pe bai wedi ei wneud yn briodol hyd nes bod yr awdurdod lleol wedi cael y ffi am gais mewn arian cliriedig.

### Caniatáu neu wrthod cais i amrywio tystysgrif gymeradwyo

**15.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo cais i amrywio tystysgrif gymeradwyo wedi ei wneud i awdurdod lleol yn unol â Rhan 7.

(2) Os yw'r awdurdod lleol wedi ei fodloni bod cais i amrywio yn unol â Rhan 7 wedi ei wneud, rhaid i'r awdurdod lleol ganiatáu'r cais i amrywio tystysgrif gymeradwyo a dyroddi'r dystysgrif gymeradwyo wedi ei hamrywio i ddeiliad y dystysgrif.

(3) Os nad yw'r awdurdod lleol wedi ei fodloni bod cais i amrywio yn unol â Rhan 7 wedi ei wneud, rhaid i'r awdurdod lleol roi hysbysiad i ddeiliad y dystysgrif fod y cais am dystysgrif gymeradwyo wedi ei wrthod i'r graddau y mae'n ymwneud ag amrywio'r dystysgrif gymeradwyo honno.

(4) Rhaid i'r hysbysiad—

(a) nodi'r rhesymau pam y mae'r awdurdod lleol yn gwrthod y cais, a

(b) datgan y caiff deiliad y dystysgrif apelio o dan Rannau 12 a 13 yn erbyn y penderfyniad.

### Effaith amrywio tystysgrif gymeradwyo

**16.**—(1) Caiff effaith amrywiad (ymhlith pethau eraill)—

(a) ychwanegu neu ddileu disgrifiad o driniaeth arbennig y mae'r dystysgrif gymeradwyo yn awdurdodi iddi gael ei rhoi;

(b) awdurdodi newid enw deiliad y dystysgrif neu enw cofrestredig y busnes sy'n gysylltiedig â'r dystysgrif gymeradwyo;

(c) awdurdodi i driniaeth arbennig gael ei rhoi mewn mangre neu mewn cerbyd sydd wedi

cael unrhyw newid neu unrhyw newidiadau i'r strwythur neu'r dyluniad.

(2) Ni chaniateir i dystysgrif gymeradwyo gael ei hamrywio o dan y Rhan hon er mwyn—

(a) trosglwyddo'r dystysgrif gymeradwyo o ddeiliad y dystysgrif i unigolyn arall, (gan gynnwys pan fu newid mewn perchnogaeth neu reolaeth mewn perthynas â'r fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd);

(b) cwtogi neu estyn cyfnod y dystysgrif gymeradwyo;

(c) terfynu'r dystysgrif gymeradwyo.

# RHAN 8

## Adnewyddu tystysgrif gymeradwyo

### Cais i adnewyddu

**17.**—(1) Caiff awdurdod lleol, ar gais gan ddeiliad y dystysgrif, adnewyddu tystysgrif gymeradwyo.

(2) Rhaid i bob cais i adnewyddu tystysgrif gymeradwyo ymwneud â naill ai—

(a) mangre unigol, neu

(b) cerbyd unigol.

(3) Rhaid i gais i adnewyddu tystysgrif gymeradwyo—

(a) cael ei wneud i'r awdurdod lleol a ganiataodd y dystysgrif gymeradwyo,

(b) cael ei wneud o leiaf 28 o ddiwrnodau gwaith cyn i'r dyddiad cymeradwyo a restrir ar y dystysgrif gymeradwyo ddod i ben,

(c) cael ei wneud naill ai ar ffurf papur neu drwy ei gyflwyno yn electronig,

(d) cynnwys rhif tystysgrif gymeradwyo'r fangre neu'r cerbyd y mae'r cais yn ymwneud â hi neu ag ef, ac

(e) cael ei wneud ar y ffurf a bennir yn Atodlen 1.

(4) Mae paragraff 3(e) yn ddarostyngedig i'r darpariaethau yn rheoliad 20.

### Yr wybodaeth sydd i'w darparu gan ddeiliad y dystysgrif

**18.** Ar ôl cyflwyno cais i adnewyddu tystysgrif gymeradwyo ond cyn dyfarnu arno, rhaid i ddeiliad y dystysgrif ddarparu i'r awdurdod lleol unrhyw wybodaeth bellach y mae'r awdurdod lleol yn ystyried ei bod yn angenrheidiol i'w alluogi i ddyfarnu ar y cais.

### Y ffioedd sydd i ddod gyda chais i adnewyddu

**19.**—(1) Mae pa ffi am gais bynnag a osodir gan yr awdurdod lleol i ddod gyda chais i adnewyddu tystysgrif gymeradwyo.

(2) Mae'r ffi am gais (os oes un) i'w gosod gan yr awdurdod lleol, gan roi sylw i'r costau y mae'r awdurdod yn mynd iddynt neu y disgwylir i'r awdurdod fynd iddynt mewn cysylltiad ag ymdrin â cheisiadau i adnewyddu o dan y Rheoliadau hyn.

(3) Nid yw cais i adnewyddu tystysgrif gymeradwyo i'w drin fel pe bai wedi ei wneud yn briodol hyd nes bod yr awdurdod lleol wedi cael y ffi am gais mewn arian cliriedig.

### Y meini prawf ar gyfer adnewyddu tystysgrif gymeradwyo

**20.**—(1) Mae'r meini prawf y mae rhaid i ddeiliad tystysgrif eu bodloni er mwyn i dystysgrif gymeradwyo gael ei adnewyddu wedi eu nodi ym mharagraff (2).

(2) Mae'r meini prawf a bennir yn rheoliad 8 yn gymwys fel pe bai cais i adnewyddu tystysgrif gymeradwyo yn gais am dystysgrif gymeradwyo, ac eithrio'r meini prawf yn rheoliad 8(2)(b) a (3) nad ydynt yn gymwys.

### Caniatáu neu wrthod cais i adnewyddu tystysgrif gymeradwyo

**21.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo cais i adnewyddu tystysgrif gymeradwyo wedi ei wneud i awdurdod lleol yn unol â Rhan 8.

(2) Os yw'r awdurdod lleol wedi ei fodloni bod yr holl feini prawf adnewyddu a nodir yn rheoliad 20 wedi eu bodloni, rhaid iddo ganiatáu'r cais i adnewyddu tystysgrif gymeradwyo a dyroddi tystysgrif gymeradwyo i ddeiliad y dystysgrif, sy'n cymeradwyo mangre neu gerbyd mewn cysylltiad â rhoi triniaeth arbennig.

(3) Os nad yw'r awdurdod lleol wedi ei fodloni bod yr holl feini prawf adnewyddu a nodir yn rheoliad 20 wedi eu bodloni, rhaid i'r awdurdod lleol roi hysbysiad i ddeiliad y dystysgrif fod y cais i adnewyddu tystysgrif gymeradwyo wedi ei wrthod.

(4) Rhaid i'r hysbysiad—

(a) nodi'r rhesymau pam y mae'r awdurdod lleol yn gwrthod y cais, a

(b) datgan y caiff deiliad y dystysgrif apelio o dan Rannau 12 a 13 yn erbyn y penderfyniad.

**Tystysgrif gymeradwyo yn dod i ben**

**22.**—(1) At ddibenion y Rhan hon, bydd tystysgrif gymeradwyo yn dod i ben ar y cynharaf o blith y canlynol—

(a) diwedd cyfnod y dystysgrif gymeradwyo;

(b) y dyddiad y dirymir y dystysgrif gymeradwyo;

(c) y dyddiad y terfynir y dystysgrif gymeradwyo yn wirfoddol.

(2) Ond ni fydd tystysgrif gymeradwyo yn dod i ben—

(a) pan fo cais i adnewyddu yn yr arfaeth;

(b) pan fo'r amser y caniateir cyflwyno sylwadau o dan Ran 12 ynddo heb ddod i ben;

(c) pan fo apêl a ddygir o dan Ran 13 eto i gael ei phenderfynu.

## RHAN 9

### Copi o'r dystysgrif gymeradwyo

**Cais am gopi o dystysgrif gymeradwyo**

**23.**—(1) Os yw tystysgrif gymeradwyo wedi mynd ar goll, wedi cael ei dwyn neu wedi cael ei difrodi, caiff deiliad y dystysgrif wneud cais am gopi i'r awdurdod lleol a ddyroddodd y dystysgrif.

(2) Rhaid i gais am gopi o dystysgrif gymeradwyo—

(a) cael ei wneud i'r awdurdod lleol a ganiataodd y dystysgrif gymeradwyo,

(b) cael ei wneud naill ai ar ffurf papur neu drwy ei gyflwyno yn electronig,

(c) cynnwys esboniad pam y ceisir copi o'r dystysgrif gymeradwyo, a

(d) pan fo'n bosibl, ddarparu cadarnhad o rif y dystysgrif gymeradwyo.

**Y ffioedd sydd i ddod gyda chais am gopi o dystysgrif gymeradwyo**

**24.**—(1) Mae pa ffi am gais bynnag a osodir gan yr awdurdod lleol i ddod gyda chais am gopi o dystysgrif gymeradwyo.

(2) Mae'r ffi am gais (os oes un) i'w gosod gan yr awdurdod lleol, gan roi sylw i'r costau y mae'r awdurdod yn mynd iddynt neu y disgwylir i'r awdurdod fynd iddynt mewn cysylltiad ag ymdrin â cheisiadau am gopïau o dystysgrifau cymeradwyo o dan y Rheoliadau hyn.

(3) Nid yw cais am gopi o dystysgrif gymeradwyo i'w drin fel pe bai wedi ei wneud yn briodol hyd nes

bod yr awdurdod lleol wedi cael y ffi am gais mewn arian cliriedig.

**Caniatáu neu wrthod cais am gopi o dystysgrif gymeradwyo**

**25.**—(1) Rhaid i'r awdurdod lleol ganiatáu'r cais os yw wedi ei fodloni—

(a) bod y dystysgrif gymeradwyo ar goll, wedi ei dwyn neu wedi ei difrodi, a

(b) pan fo'r dystysgrif gymeradwyo ar goll neu wedi ei dwyn, fod yr heddlu wedi ei hysbysu am hyn.

(2) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl caniatáu cais, rhaid i awdurdod lleol ddyroddi copi o'r dystysgrif gymeradwyo i ddeiliad y dystysgrif.

(3) Os nad yw awdurdod lleol wedi ei fodloni o dan baragraff (1) rhaid iddo ddyroddi hysbysiad i ddeiliad y dystysgrif—

(a) sy'n cynnwys y rhesymau pam y mae'r awdurdod lleol yn gwrthod y cais, a

(b) sy'n datgan y caiff deiliad y dystysgrif apelio o dan Rannau 12 a 13 yn erbyn y penderfyniad.

**Copi o dystysgrif gymeradwyo**

**26.** Rhaid i gopi o dystysgrif gymeradwyo a ddyroddir gan awdurdod lleol o dan reoliad 25—

(a) cael ei ardystio gan yr awdurdod lleol fel copi gwir, a

(b) cael ei drin at ddibenion y Rheoliadau hyn ac unrhyw ofynion a osodir gan neu o dan y Rheoliadau hyn fel y dystysgrif gymeradwyo wreiddiol.

# RHAN 10

## Ffioedd

**Ffi am gais**

**27.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gwneud darpariaeth ynghylch y ffordd y mae awdurdod lleol yn pennu swm y ffi am gais at ddibenion adran 70(8)(a) o'r Ddeddf.

(2) Mae'r costau y mae rhaid i awdurdod lleol roi sylw iddynt (yn unol â rheoliad 7) wrth bennu'r ffi am gais yn cynnwys, yn arbennig, gostau y mae'r awdurdod lleol yn mynd iddynt neu y disgwylir i'r awdurdod lleol fynd iddynt mewn cysylltiad â cheisiadau a'r gweithgareddau a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt)—

(a) cael a chofnodi'r cais a chraffu arno,

(b) cynnal cyfweliad ymgeisio ac arolygiad o'r fangre neu'r cerbyd,

(c) camau dilynol sy'n gysylltiedig â'r cyfweliad ymgeisio a'r arolygiad o'r fangre neu'r cerbyd,

(d) cymeradwyo neu wrthod y cais, ac

(e) pennu gradd y swyddog a'r amser sy'n gysylltiedig â phob un o'r swyddogaethau hyn.

(3) Rhaid i awdurdod lleol adolygu lefel y ffi—

(a) ar ddiwedd y cyfnod o 1 flwyddyn sy'n dechrau â'r diwrnod y daw'r Rheoliadau hyn i rym, a

(b) fesul ysbaid o ddim mwy nag 1 flwyddyn wedi hynny.

(4) Ni chaniateir talu ffi am gais mewn rhandaliadau.

(5) Caiff awdurdod lleol ad-dalu'r cyfan neu ran o ffi am gais sydd eisoes wedi ei thalu.

(6) Os daw'n amlwg, ar ôl talu ffi am gais, y dylid bod wedi talu ffi lai, rhaid ad-dalu'r swm dros ben.

**Ffi gydymffurfio**

**28.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gwneud darpariaeth ynghylch y ffordd y mae awdurdod lleol yn pennu swm y ffi gydymffurfio (os oes un) at ddibenion adran 76(2) o'r Ddeddf.

(2) Mae'r costau y mae rhaid i awdurdod lleol roi sylw iddynt (yn unol ag adran 76(4) o'r Ddeddf) wrth bennu'r ffi gydymffurfio yn cynnwys, yn arbennig, gostau y mae'r awdurdod lleol yn mynd iddynt neu y disgwylir i'r awdurdod lleol fynd iddynt mewn cysylltiad â'r gweithgareddau a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt)—

(a) cynnal cofnodion ar gronfa ddata yr awdurdod lleol,

(b) cynnal y gofrestr a sefydlwyd o dan adran 75 o'r Ddeddf,

(c) swyddog awdurdodedig yn arfer y pwerau mynediad etc. o dan adran 84 o'r Ddeddf ac yn cynnal ymweliadau dirybudd a all, mewn rhai achosion, arwain at arfer y pwerau arolygu etc. o dan adran 88 o'r Ddeddf,

(d) cymryd camau yn erbyn deiliad y dystysgrif ac arfer y pŵer i ddirymu tystysgrif gymeradwyo o dan adran 73 o'r Ddeddf, ac

(e) pennu gradd y swyddog a'r amser sy'n gysylltiedig â phob un o'r swyddogaethau hyn.

(3) Rhaid i awdurdod lleol adolygu lefel y ffi—

(a) ar ddiwedd y cyfnod o 1 flwyddyn sy'n dechrau â'r diwrnod y daw'r Rheoliadau hyn i rym, a

(b) fesul ysbaid o ddim mwy nag 1 flwyddyn wedi hynny.

(4) Ni chaniateir talu'r ffi gydymffurfio mewn rhandaliadau.

(5) Caiff awdurdod lleol ad-dalu'r cyfan neu ran o'r ffi gydymffurfio sydd eisoes wedi ei thalu.

(6) Os daw'n amlwg, ar ôl talu'r ffi gydymffurfio, y dylid bod wedi talu ffi lai, rhaid ad-dalu'r swm dros ben.

(7) Caniateir i unrhyw ffi gydymffurfio sy'n ddyledus i awdurdod lleol ac sy'n parhau i fod heb ei thalu fod yn adenilladwy gan yr awdurdod lleol hwnnw drwy ddyled sifil.

(8) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "ffi gydymffurfio" ("*compliance fee*") yw ffi y caniateir ei chodi gan yr awdurdod lleol o dan adran 76(2) o'r Ddeddf;

mae i "swyddog awdurdodedig" ("*authorised officer*") yr ystyr a roddir yn adran 83 o'r Ddeddf.

## RHAN 11

## Hysbysiad o derfynu tystysgrif gymeradwyo yn wirfoddol

### Hysbysiad o derfynu tystysgrif gymeradwyo yn wirfoddol

**29.** Pan fo deiliad tystysgrif yn dymuno i dystysgrif gymeradwyo beidio â chael effaith a phan fo'n rhoi hysbysiad o dan adran 72(1) o'r Ddeddf i'r awdurdod lleol sydd wedi caniatáu a dyroddi'r dystysgrif gymeradwyo, rhaid i'r hysbysiad gynnwys—

(a) y dyddiad y bwriedir i'r dystysgrif gymeradwyo beidio â chael effaith,

(b) rhif y dystysgrif gymeradwyo,

(c) manylion deiliad y dystysgrif, i gynnwys ei enw llawn, ei ddyddiad geni, ei gyfeiriad a'i fanylion cyswllt,

(d) yn achos mangre a gymeradwywyd, gyfeiriad y fangre,

(e) yn achos cerbyd a gymeradwywyd sydd â rhif cofrestru, rif cofrestru'r cerbyd,

(f) yn achos cerbyd a gymeradwywyd nad oes ganddo rif cofrestru, pa fanylion adnabod bynnag am y cerbyd y mae'r awdurdod lleol wedi ystyried eu bod yn briodol yn unol ag adran 71(3)(b) o'r Ddeddf, ac

(g) enw unrhyw bersonau y mae deiliad y dystysgrif yn meddwl bod yr hysbysiad yn debygol o effeithio arnynt.

# RHAN 12

## Hysbysiadau a'r hawl i gyflwyno sylwadau

### Cymhwyso a dehongli

**30.**—(1) Mae'r Rhan hon yn gymwys os yw awdurdod lleol yn bwriadu rhoi hysbysiad i P ei fod yn bwriadu gwrthod cais.

(2) Yn Rhannau 12 a 13—

ystyr "cais" ("*an application*") yw cais—

(a) am dystysgrif gymeradwyo,

(b) i amrywio tystysgrif gymeradwyo,

(c) i adnewyddu tystysgrif gymeradwyo, a

(d) am gopi o dystysgrif gymeradwyo;

ystyr "P" ("*P*") yw'r ceisydd neu ddeiliad y dystysgrif.

### Gwrthod cais

**31.** Caiff awdurdod lleol wrthod cais.

### Hysbysiad rhybuddio o fwriad i wrthod cais

**32.** Os yw awdurdod lleol yn bwriadu gwrthod cais o dan reoliad 31, rhaid iddo roi hysbysiad ("hysbysiad rhybuddio") i P sy'n nodi'r hyn y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu ei wneud a pham.

### Yr hawl i gyflwyno sylwadau

**33.**—(1) Rhaid i hysbysiad rhybuddio ddatgan y caiff P, o fewn cyfnod a bennir yn yr hysbysiad, naill ai—

(a) cyflwyno sylwadau ynghylch y cynigion, neu

(b) hysbysu'r awdurdod lleol bod P yn dymuno cyflwyno sylwadau.

(2) Ni chaniateir i'r cyfnod a bennir yn yr hysbysiad rhybuddio fod yn llai na 14 o ddiwrnodau sy'n dechrau â dyddiad yr hysbysiad.

(3) Caiff yr awdurdod lleol gymryd y camau a bennir yn yr hysbysiad rhybuddio—

(a) os yw P, o fewn y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad rhybuddio, yn hysbysu'r awdurdod lleol nad yw P yn dymuno cyflwyno sylwadau, neu

(b) os yw'r cyfnod a bennir yn yr hysbysiad rhybuddio yn dod i ben ac nad yw P wedi

cyflwyno sylwadau nac wedi hysbysu'r awdurdod lleol bod P yn dymuno gwneud hynny.

(4) Os yw P, o fewn y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad rhybuddio, yn hysbysu'r awdurdod lleol bod P yn dymuno cyflwyno sylwadau—

(a) rhaid i'r awdurdod lleol ganiatáu cyfnod rhesymol pellach i P i gyflwyno sylwadau, a

(b) caiff yr awdurdod lleol gymryd y camau a bennir yn yr hysbysiad rhybuddio os yw P yn methu â chyflwyno sylwadau o fewn y cyfnod pellach hwnnw.

(5) Os yw P yn cyflwyno sylwadau (naill ai o fewn y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad rhybuddio neu o fewn y cyfnod pellach a ganiateir o dan baragraff (4)(a)), rhaid i'r awdurdod lleol ystyried y sylwadau.

(6) Caniateir i'r sylwadau a gyflwynir gan P o dan y rheoliad hwn gael eu cyflwyno ar lafar neu fel arall ac, yn achos sylwadau llafar, caiff P neu gynrychiolydd P eu cyflwyno.

**Hysbysiad o benderfyniad**

**34.**—(1) Os yw awdurdod lleol, ar ôl cydymffurfio â'r gofynion yn rheoliad 32, yn penderfynu cymryd y camau a nodir yn yr hysbysiad rhybuddio, rhaid iddo roi hysbysiad o benderfyniad i P sy'n nodi'r rhesymau dros gymryd camau o'r fath.

(2) Rhaid i'r hysbysiad o benderfyniad hefyd ddatgan—

(a) y caiff P apelio o dan Ran 13 yn erbyn y penderfyniad, a

(b) y cyfnod y caniateir i apêl gael ei dwyn ynddo.

(3) Os yw awdurdod lleol, ar ôl cydymffurfio â rheoliad 32, yn penderfynu peidio â chymryd y camau g weithredu a nodir yn yr hysbysiad rhybuddio, rhaid i'r awdurdod lleol roi'r hysbysiad o benderfyniad i P.

## RHAN 13

### Apelau

**Apêl i lys ynadon**

**35.**—(1) Caiff P apelio i lys ynadon yn erbyn penderfyniad i wrthod cais.

(2) Mae apêl i gael ei gwneud o fewn y cyfnod o 21 o ddiwrnodau sy'n dechrau â dyddiad yr hysbysiad o benderfyniad i wrthod y cais.

(3) Mae apêl i fod ar ffurf cwyn am orchymyn, ac yn unol â Deddf Llysoedd Ynadon 1980([1]).

(4) At ddibenion y terfyn amser ar gyfer gwneud apêl, mae gwneud y gŵyn i'w drin fel gwneud yr apêl.

(5) Yn dilyn apêl, caiff y llys ynadon—

(a) cadarnhau penderfyniad yr awdurdod lleol yr apelir yn ei erbyn, neu

(b) diddymu neu amrywio'r penderfyniad yr apelir yn ei erbyn,

a chaiff wneud unrhyw orchymyn o ran costau y mae'n meddwl ei fod yn addas.

(6) Os bydd y llys ynadon yn diddymu neu'n amrywio'r penderfyniad yr apelir yn ei erbyn, caiff anfon yr achos yn ôl i'r awdurdod lleol i ymdrin ag ef yn unol â chyfarwyddydau a roddir gan y llys.

**Apêl i Lys y Goron**

**36.**—(1) Caniateir i apêl gan y naill barti neu'r llall yn erbyn penderfyniad llys ynadon o dan reoliad 35 gael ei dwyn gerbron Llys y Goron.

(2) Yn dilyn apêl i Lys y Goron, caiff Llys y Goron—

(a) cadarnhau, amrywio neu wrth-droi penderfyniad y llys ynadon,

(b) anfon yr achos yn ôl i'r llys ynadon neu'r awdurdod lleol i ymdrin ag ef yn unol â chyfarwyddydau a roddir gan Lys y Goron.

**Digolledia d**

**37.**—(1) Pan fo llys, yn dilyn apêl o dan reoliad 35 neu 36, yn amrywio neu'n gwrth-droi penderfyniad awdurdod lleol, caiff y llys orchymyn i'r awdurdod lleol ddigolledu'r ceisydd neu ddeiliad y dystysgrif am golled a ddioddefwyd o ganlyniad i'r penderfyniad.

(2) Nid yw dwyn apêl o dan reoliad 35 neu 36 mewn cysylltiad â phenderfyniad a wneir gan awdurdod lleol yn atal dros dro effaith y penderfyniad nac unrhyw hysbysiad a roddir o dan Ran 12.

*Enw*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad

---

([1]) 1980 p. 43.

# ATODLEN 1 Rheoliad 5(2)

## Ffurf y cais am dystysgrif gymeradwyo

*Rhowch enw a chyfeiriad yr awdurdod lleol perthnasol a'i logo yma*

**Cais am dystysgrif gymeradwyo o dan adran 70 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017**

**DARLLENWCH Y CYFARWYDDIADAU A'R NODIADAU CYFARWYDDYD CYSYLLTIEDIG A GANLYN YN GYNTAF**

**Os ydych yn llenwi'r ffurflen hon â llaw, ysgrifennwch yn glir mewn priflythrennau gan ddefnyddio inc. Defnyddiwch ddalennau ychwanegol os bydd angen (wedi eu marcio â'r pennawd "Dalen barhad – cais am dystysgrif gymeradwyo" a chofiwch gynnwys rhif y cwestiwn perthnasol ac enw a chyfeiriad y ceisydd). Efallai y byddwch am gadw copi o'r ffurflen wedi ei llenwi ar gyfer eich cofnodion.**

**Enw'r awdurdod lleol perthnasol sy'n dyroddi (*gweler Nodyn Cyfarwyddyd 1*):**

……………………………………………………………………………..

**Rhan 1 – Y math o dystysgrif gymeradwyo y gwneir cais amdani**

*Ticiwch fel y bo'n briodol*

**1.1 Pa fath o dystysgrif gymeradwyo y mae eich cais yn ymwneud â hi?**

Mangre ☐ Cerbyd ☐

**1.2 Beth yw cyfnod para arfaethedig eich tystysgrif gymeradwyo?**

Dros dro (dim mwy na 7 niwrnod) ☐ 3 blynedd ☐

***Os ydych yn gwneud cais am dystysgrif gymeradwyo dros dro, nodwch pam y mae tystysgrif yn ofynnol (er enghraifft, rhowch fanylion ynghylch arddangosfa, adloniant neu ddigwyddiad)):***

……………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………...……………………………………

**1.3 Pryd rydych chi am i'r dystysgrif gymeradwyo ddechrau?**

Cyn gynted â phosibl ☐

Dyddiadau penodol ☐ [*Er enghraifft, nodwch y diwrnodau rydych chi am i'r dystysgrif gymeradwyo eu cwmpasu; yn achos tystysgrif gymeradwyo dros dro, rhaid ichi bennu'r dyddiadau pryd y bydd yn ofynnol cael y gymeradwyaeth.*]

…….……………………… i ……………………………..

## Rhan 2 – Manylion y ceisydd (llenwch fel y bo'n gymwys)

*Os ydych yn gwneud cais fel unigolyn, llenwch Adran A. Os yw'r cais yn cael ei wneud ar ran busnes neu sefydliad (megis cwmni neu bartneriaeth), llenwch Adran B.*

### Adran A – Ceisydd unigol

**2.1 Teitl:** Mr ☐ Mrs ☐ Miss ☐ Ms ☐ Dr ☐ Arall ☐ (nodwch os gwelwch yn dda) ……………………..

**2.2 Cyfenw:** ……………………………………………….

**2.3 Enw(au) cyntaf:** ………………………………………………

**2.4 Rhif ffôn cyswllt:** ………………………………………………

**2.5 Cyfeiriad e-bost (os yw'n gymwys):** ……………………………………………………………….

**2.6 Dyddiad Geni:** ………………………………………..

**2.7 Cyfeiriad y ceisydd (preswyl neu fusnes):**

………………………………………………………………………………………………………………

………………………………………….. Cod post: ……………………………………..

**2.8 Nodwch enw llawn y person a fydd yn cael ei restru fel deiliad y dystysgrif ar y dystysgrif gymeradwyo:**

……………………………………………………………………………………….

**2.9 Cadarnhewch fod deiliad arfaethedig y dystysgrif yn 18 oed neu'n hŷn (**ticiwch) ☐

**2.10 A yw'r ceisydd neu unrhyw berson a enwir yn y cais hwn yn ymwneud mewn unrhyw ffordd ag unrhyw fangre neu unrhyw gerbyd arall lle y rhoddir triniaethau arbennig?**

Ydy ☐ Nac ydy ☐

**Os ydyw, rhowch fanylion:**

………………………………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………………………………
[*Er enghraifft, natur a maint unrhyw fuddiant, cyfeiriad unrhyw fangre, neu fanylion ynghylch unrhyw gerbyd, rhif(au) y dystysgrif gymeradwyo ar gyfer unrhyw fangre neu unrhyw gerbyd.*]

### Adran B – Cais ar ran busnes neu sefydliad

**2.11 Enw'r busnes neu'r sefydliad sy'n gwneud cais:**

………………………………………………………………………………………………………………
[*Defnyddiwch enw masnachu neu enw cofrestredig y busnes neu'r sefydliad.*]

**2.12 Rhif cofrestru'r cwmni:**

………………………………………………………………………………………………………………

**2.13 Math o gwmni:**

……………………………………………………………………………………………………………
[*Er enghraifft, Cwmni cyfyngedig preifat, Partneriaeth, Unig fasnachwr.*]

**2.14 Os ydych yn llenwi'r ffurflen hon ar ran y busnes neu'r sefydliad, nodwch eich enw llawn a'ch rôl yn y busnes (*gweler Nodyn Cyfarwyddyd 2*):**

**Enw llawn:** ………………………………………………………………………….

**Rôl:** ……………………………………………………………………………….
[*Er enghraifft, Perchennog, Rheolwr, Cyfarwyddwr y cwmni, Cyfarwyddwr gweithredol.*]

**2.15 Cyfeiriad swyddfa gofrestredig y busnes neu'r sefydliad**:

……………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………….… Cod post: ………………………………………….

**2.16 Rhowch enw llawn a manylion cyswllt unigolyn ychwanegol yn y swyddfa gofrestredig y gellir cysylltu ag ef mewn cysylltiad â'r cais hwn ac yn ystod cyfnod para'r dystysgrif gymeradwyo arfaethedig (*gweler Nodyn Cyfarwyddyd 3*):**

**Enw llawn:** ……………………………………………………………………………………

**Rôl:** ……………………..……………………………………………………………….
[*Er enghraifft, Rheolwr rhanbarthol, Rheolwr ardal, Rheolwr safle etc.]*

**Manylion cyswllt (rhif ffôn a chyfeiriad e-bost):**

……………………………………………………………………………….………………

**2.17 Nodwch enw'r busnes/sefydliad a fydd yn cael ei restru fel deiliad y dystysgrif ar y dystysgrif gymeradwyo:**

……………………………………………………………………………………….

……………………………………………………………………………………….

**2.18 A yw'r ceisydd neu unrhyw berson a enwir yn y cais hwn yn ymwneud mewn unrhyw ffordd ag unrhyw fangre arall neu unrhyw gerbyd arall lle y rhoddir triniaethau arbennig?**

Ydy ☐ Nac ydy ☐

**Os ydyw, rhowch fanylion:**

……………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………
[*Er enghraifft, natur a maint unrhyw fuddiant, cyfeiriad unrhyw fangre, neu fanylion ynghylch unrhyw gerbyd, rhif(au) y dystysgrif gymeradwyo ar gyfer unrhyw fangre neu unrhyw gerbyd.*]

## Rhan 3 – Manylion y Fangre neu'r Cerbyd

Pan fo'ch cais yn ymwneud â mangre, llenwch Adran A. Os yw'r cais yn ymwneud â cherbyd, llenwch Adran B.

**Adran A – Manylion y Fangre**

**3.1 Enw masnachu a ddefnyddir yn y fangre (os yw'n gymwys):**

…………………………………………………………………………………………………………

**3.2 Cyfeiriad y fangre:**

…………………………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………………………

…………………………………...…… Cod post: ……………………………………………….

**3.3 Rhif ffôn yn y fangre (os yw'n gymwys):**

………………………………………………………………………………

**3.4 Cyfeiriad gwefan y busnes a/neu fanylion unrhyw blatfformau cyfryngau cymdeithasol ar gyfer y cyhoedd sydd ganddo (os yw'n gymwys):**

……………………………………………………………………………………..

**3.5 Rhestr o driniaethau arbennig sydd i'w rhoi yn y fangre (*gweler Nodyn Cyfarwyddyd 4*):**

**Aciwbigo** ☐
**Tyllu'r corff** ☐
**Electrolysis** ☐
**Tatŵio** ☐

**3.6 A oes unrhyw weithgareddau eraill (er enghraifft gweithgareddau nad ydynt yn cael eu hystyried yn driniaethau arbennig) yn cael eu cyflawni yn y fangre? (*Gweler Nodyn Cyfarwyddyd 5*)**

Oes ☐ Nac oes ☐

**Os oes, rhestrwch y gweithgareddau eraill hynny:**

………………………………………………………………………………………………

**3.7 Faint o ddeiliaid trwydded fydd yn gweithio yn y fangre?**

……………………………………………………………………………………………..

**3.8 Faint o weithfannau sydd yn y fangre yr ydych yn ceisio cymeradwyaeth ar ei chyfer? (*Gweler Nodyn Cyfarwyddyd 6*)**

……………………………………………………………………………………………..

**3.9 Pa gyflenwad dŵr sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y fangre?**

☐ Dŵr o'r prif gyflenwad ☐ Dŵr o gyflenwad preifat
☐ Dŵr o'r prif gyflenwad ac o gyflenwad preifat

**3.10 Nodwch nifer a lleoliad unrhyw fasnau golchi dwylo yn y fangre:**

……………………………………………………………………………..………

**3.11 Nodwch a yw'r holl fasnau golchi dwylo yn darparu:**

- Cyflenwad digonol o ddŵr poeth ac oer rhedegog Ydyn ☐ Nac ydyn ☐
- Sebon hylif neu sebon ewyn Ydyn ☐ Nac ydyn ☐
- Tywelion papur tafladwy mewn cyflenwr caeedig Ydyn ☐ Nac ydyn ☐

**3.12 A yw'r holl osodiadau a'r ffitiadau yn y man gwaith triniaethau arbennig (*gweler Nodyn Cyfarwyddyd 7*) mewn cyflwr da ac wedi eu gwneud o ddeunyddiau difandwll y gellir eu glanhau a'u diheintio yn hawdd?** Ydyn ☐ Nac ydyn ☐

**3.13 A yw'r holl waliau a'r lloriau yn y fangre mewn cyflwr da?** Ydyn ☐ Nac ydyn ☐

**3.14 A yw'r holl waliau a'r lloriau yn y fangre wedi eu gwneud o ddeunyddiau y gellir eu glanhau a'u diheintio yn hawdd?** Ydyn ☐ Nac ydyn ☐

**3.15 Rhowch fanylion llawn ynghylch y cyfarpar a'r cynhyrchion a ddefnyddir wrth sterileiddio, diheintio a glanhau unrhyw offerynnau, cyfarpar, gosodiadau a ffitiadau (gan gynnwys sinciau):**

…………………………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………………………

**3.16 Nodwch pa ddarpariaeth sydd wedi ei gwneud ar gyfer storio, casglu a gwaredu gwastraff (gan gynnwys offer miniog – *gweler Nodyn Cyfarwyddyd 8*):**

…………………………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………………………

**3.17 Nodwch pa ddarpariaeth sydd wedi ei gwneud mewn perthynas â'r canlynol:**

- **Cyfarpar Diogelu Personol (PPE)**

  ……………………………………………………………………………

  ……………………………………………………………………………

- **Cymorth Cyntaf**

  ……………………………………………………………………………

  ……………………………………………………………………………

**3.18 Nodwch pa ddarpariaeth sydd wedi ei gwneud ar gyfer storio a chynnal cofnodion mewn perthynas â'r canlynol:**

- **Gwybodaeth am gleientiaid**

  ……………………………………………………………………………

  ……………………………………………………………………………

- **Cyflenwyr a defnydd o gynhyrchion**

  ……………………………………………………………………………

  ……………………………………………………………………………

- **Gweithdrefnau glanhau a diheintio**

  ……………………………………………………………………………

  ……………………………………………………………………………

- **Cynnal a chadw a gwasanaethu cyfarpar**

  ……………………………………………………………………………

  ……………………………………………………………………………

**Adran B – Manylion y Cerbyd**

**3.19 Enw masnachu a ddefnyddir ar gyfer y cerbyd (os yw'n gymwys):**

………………………………………………………………………………

**3.20 Rhowch fanylion ynghylch y cerbyd:**

**Rhif cofrestru'r cerbyd:** ……………………………………………….

**Rhif adnabod y cerbyd (VIN):** ……………………………………………….

**Mae ffotograff lliw diweddar o'r cerbyd i'w amgáu â'r cais hwn** (ticiwch i gadarnhau ei fod wedi ei gynnwys) **(*gweler Nodyn Cyfarwyddyd 9*)** ☐ Ydy

**Os nad oes gan y cerbyd rif cofrestru, rhowch ddisgrifiad o'r cerbyd a'i leoliad (pan fo'n bosibl, dylai hyn gynnwys cyfeiriad gyda chod post) a darparwch gymaint o wybodaeth â phosibl i nodi'r cerbyd, er enghraifft, gwneuthuriad, model a lliw'r cerbyd:**

…………………………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………………………

**3.21 O ble yng Nghymru y bydd y cerbyd yn debygol o weithredu? (*Gweler Nodyn Cyfarwyddyd 10*)**

………………………………………………………………………………

**3.22 Cyfeiriad gwefan y busnes a/neu unrhyw blatfformau cyfryngau cymdeithasol ar gyfer y cyhoedd sydd ganddo (os yw'n gymwys):**

………………………………………………………………………………..

**3.23 Rhestr o driniaethau arbennig sydd i'w rhoi yn y cerbyd (*gweler Nodyn Cyfarwyddyd 4*):**

**Aciwbigo** ☐
**Tyllu'r corff** ☐
**Electrolysis** ☐
**Tatŵio** ☐

**3.24 A oes unrhyw weithgareddau eraill (er enghraifft gweithgareddau nad ydynt yn cael eu hystyried yn driniaethau arbennig) yn cael eu cyflawni yn y cerbyd hwn? (*Gweler Nodyn Cyfarwyddyd 5*)**

Oes ☐ Nac oes ☐

**Os oes, rhestrwch y gweithgareddau eraill hynny:**

…………………………………………………………………………………………………

**3.25 Faint o ddeiliaid trwydded fydd yn gweithio yn y cerbyd?**

……………………………………………………………………………………………..

**3.26 Faint o weithfannau sydd yn y cerbyd yr ydych yn ceisio cymeradwyaeth ar ei gyfer? (*Gweler Nodyn Cyfarwyddyd 6)***

……………………………………………………………………………………………..

**3.27 Pa gyflenwad dŵr sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y fangre hon?**

☐ Dŵr o'r prif gyflenwad ☐ Dŵr o gyflenwad preifat
☐ Dŵr o'r prif gyflenwad ac o gyflenwad preifat

**3.28 Nodwch nifer a lleoliad unrhyw fasnau golchi dwylo yn y cerbyd:**

……………………………………………………………………………………..………

**3.29 Nodwch a yw'r holl fasnau golchi dwylo yn darparu:**

- **Cyflenwad digonol o ddŵr poeth ac oer rhedegog** Ydyn ☐ Nac ydyn ☐
- **Sebon hylif neu sebon ewyn** Ydyn ☐ Nac ydyn ☐
- **Tywelion papur tafladwy mewn cyflenwr caeedig** Ydyn ☐ Nac ydyn ☐

**3.30 A yw'r holl osodiadau a'r ffitiadau yn y man gwaith triniaethau arbennig (*gweler Nodyn Cyfarwyddyd 7*) mewn cyflwr da ac wedi eu gwneud o ddeunyddiau difandwll y gellir eu glanhau a'u diheintio yn hawdd?** Ydyn ☐ Nac ydyn ☐

**3.31 A yw'r holl waliau a'r lloriau yn y cerbyd mewn cyflwr da?** Ydyn ☐ Nac ydyn ☐

**3.32 A yw'r holl waliau a'r lloriau yn y cerbyd wedi eu gwneud o ddeunyddiau y gellir eu glanhau a'u diheintio yn hawdd?** Ydyn ☐ Nac ydyn ☐

**3.33 Rhowch fanylion llawn ynghylch y cyfarpar a'r cynhyrchion a ddefnyddir wrth sterileiddio, diheintio a glanhau unrhyw offerynnau, cyfarpar, gosodiadau a ffitiadau (gan gynnwys sinciau):**

……………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………

**3.34 Nodwch pa ddarpariaeth sydd wedi ei gwneud ar gyfer storio, casglu a gwaredu gwastraff (gan gynnwys offer miniog – g*weler Nodyn Cyfarwyddyd 8*):**

……………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………

**3.35 Nodwch pa ddarpariaeth sydd wedi ei gwneud mewn perthynas â'r canlynol:**

- **Cyfarpar Diogelu Personol (PPE)**

  ………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………

- **Cymorth Cyntaf**

  …………………………………………………………………………

  …………………………………………………………………………

**3.36 Nodwch pa ddarpariaeth sydd wedi ei gwneud ar gyfer storio a chynnal cofnodion mewn perthynas â'r canlynol:**

- **Gwybodaeth am gleientiaid**

  …………………………………………………………………………

  …………………………………………………………………………

- **Cyflenwyr a defnydd o gynhyrchion**

  …………………………………………………………………………

  …………………………………………………………………………

- **Gweithdrefnau glanhau a diheintio**

  …………………………………………………………………………

  …………………………………………………………………………

- **Cynnal a chadw a gwasanaethu cyfarpar**

  …………………………………………………………………………

  …………………………………………………………………………

## Rhan 4 – Amseroedd gweithredu

**Llenwch y tabl isod i nodi amseroedd agor a chau arfaethedig y fangre neu'r cerbyd:**

| | Dechrau | Gorffen |
|---|---|---|
| Dydd Llun | | |
| Dydd Mawrth | | |
| Dydd Mercher | | |
| Dydd Iau | | |
| Dydd Gwener | | |
| Dydd Sadwrn | | |
| Dydd Sul | | |

[*Rhowch amseroedd yn ôl y cloc 24 awr (e.e. 16:00) a rhowch fanylion dim ond ar gyfer dyddiau'r wythnos pan fyddwch yn bwriadu defnyddio'r fangre neu'r cerbyd i roi triniaethau arbennig.*]

## Rhan 5 – Amrywiol (llenwch fel y bo'n gymwys)

*Ticiwch fel y bo'n briodol*

**5.1 A ydych chi, neu unrhyw berson a enwir yn y cais hwn neu sy'n gysylltiedig â'r cais, wedi**

**gwneud cais blaenorol am dystysgrif gymeradwyo?** (Ticiwch bob un sy'n gymwys)

Nac ydw ☐
Ydw – cais am dystysgrif gymeradwyo wedi ei ganiatáu ☐
Ydw – cais i amrywio wedi ei ganiatáu ☐
Ydw – cais i adnewyddu wedi ei ganiatáu ☐
Ydw – cais (am dystysgrif gymeradwyo, i amrywio a/neu adnewyddu) wedi ei ganiatáu a'r dystysgrif gymeradwyo wedi ei dirymu ☐
Ydw – cais (am dystysgrif gymeradwyo, i amrywio a/neu adnewyddu) wedi ei wrthod ☐

**Os ydych, rhowch fanylion** *[er enghraifft, rhif unrhyw dystysgrif gymeradwyo, y rhesymau pam y gwrthodwyd cais, y rhesymau pam y dirymwyd tystysgrif gymeradwyo.]***:**

……………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………

**5.2 A oes gennych drwydded triniaeth arbennig (*gweler Nodyn Cyfarwyddyd 11*)?**

Oes ☐ Nac oes ☐ Cais yn yr arfaeth ☐

**Os felly, rhowch rif y drwydded (*gweler Nodyn Cyfarwyddyd 12*):**

…………………………………………………….

**Os oes cais yn yr arfaeth, rhowch y dyddiad y gwnaed y cais:**

…………………………………………..

**5.3 A wnewch chi gadarnhau pa iaith yr hoffech ei defnyddio wrth drafod eich cais â'r awdurdod lleol:**

Cymraeg ☐ Saesneg ☐

**5.4 Nodwch unrhyw wybodaeth arall yr ydych yn ystyried ei bod yn berthnasol i'ch cais mewn cysylltiad â'r fangre neu'r cerbyd:**

……………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………

## Rhan 6 – Datganiad a Rhestr Wirio (llenwch/ticiwch)

**Mae'r datganiad hwn i'w gwblhau gan ddeiliad arfaethedig y dystysgrif.**

**Rwyf yn cadarnhau, hyd eithaf fy ngwybodaeth, fod yr wybodaeth a gynhwysir yn y cais hwn yn wir. Deallaf ei bod yn drosedd o dan adran 82(7) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 i roi gwybodaeth sy'n anwir neu'n gamarweiniol yn y cais hwn, neu mewn perthynas ag ef, neu yr wyf yn ddi-hid o ran a yw'n anwir neu'n gamarweiniol.**

**Deallaf y gallai rhoi gwybodaeth anwir neu gamarweiniol (pa un ai'n fwriadol neu'n ddi-hid) arwain at ddirymu fy nhystysgrif gymeradwyo.**

☐

**Rwyf hefyd yn cadarnhau'r canlynol:**

☐ **Bod gan y ceisydd unigol/y busnes neu'r sefydliad yr hawl i feddiannu'r fangre neu'r cerbyd** (dileer fel y bo'n gymwys)**,**

☐ **Rwyf yn ymwybodol o'r rhwymedigaethau sydd arnaf i gael sicrwydd yswiriant dilys mewn cysylltiad â'r fangre/cerbyd (*gweler Nodyn Cyfarwyddyd 13*),**

☐ **Rwyf wedi darllen a deall yr amodau cymeradwyo mandadol a fydd ynghlwm wrth fy nhystysgrif gymeradwyo, ac**

☐ **Rwyf yn deall goblygiadau peidio â chydymffurfio â'r amodau cymeradwyo mandadol hynny *(gweler Nodyn Cyfarwyddyd 14).***

**Rhestr wirio:**

- **Mae'r taliad am y ffi am gais wedi ei wneud/wedi ei amgáu (*gweler Nodyn Cyfarwyddyd 15*)** ☐
- **Mae'r ffurflen gais wedi ei llenwi'n gyflawn ac wedi ei llofnodi (*gweler Nodyn Cyfarwyddyd 16*)** ☐
- **Mae plan o'r fangre neu'r cerbyd wedi ei amgáu (*gweler Nodyn Cyfarwyddyd 17*)** ☐
- **Mae tystiolaeth o Ddyfarniad Lefel 2 a reoleiddir wedi ei hamgáu (*gweler Nodyn Cyfarwyddyd 18*)** ☐
- **Mae ffotograff lliw diweddar o'r cerbyd wedi ei amgáu (os yw'n gymwys) (*gweler Nodyn Cyfarwyddyd 9*)** ☐
- **Mae copïau o ddogfennau hunaniaeth wedi eu hamgáu (*gweler Nodyn Cyfarwyddyd 19*)** ☐
- **Deallaf os na chydymffurfir â'r gofynion uchod y gallai'r cais gael ei wrthod** ☐

## Rhan 7 – Llofnod

**7.1 Llofnod yr unigolyn sy'n gwneud cais am dystysgrif gymeradwyo (yn unol â Rhan 2, Adran A)**

**Llofnod:** ……………………………………….……..

**Enw (mewn priflythrennau):** ……………………………………..……..

**Dyddiad:** ……………………………………..................

**7.2 Llofnod ar ran y busnes/sefydliad sy'n gwneud cais am dystysgrif gymeradwyo (yn unol â Rhan 2, Adran B)**

**Llofnod (y person a nodwyd yn Rhan 2, Adran B 2.14):** ……………………………………….……..

**Enw (mewn priflythrennau):** ……………………………………..……..

**Dyddiad:** ……………………………………..................

**Llofnod (y person a nodwyd yn Rhan 2, Adran B 2.16:** ……………………………………….……..

**Enw (mewn priflythrennau):** ……………………………………..……..

**Dyddiad:** ……………………………………..................

[*Pan fo'r cais i'w gyflwyno ar ffurf electronig, dylid cynhyrchu'r llofnod yn electronig a dylai fod yn gopi o lofnod ysgrifenedig y person.*]

## Nodiadau Cyfarwyddyd

**Nodyn 1: Enw'r awdurdod lleol perthnasol sy'n dyroddi**
Wrth wneud cais am dystysgrif gymeradwyo—

(a) os yw'r fangre yn ardal yr awdurdod lleol, mae cais i'w wneud i'r awdurdod lleol hwnnw;

(b) os ystyrir bod y cerbyd yn cael ei yrru, ei ddefnyddio neu ei gadw yn ardal yr awdurdod lleol, neu ei fod yn debygol o gael ei yrru, ei ddefnyddio neu ei gadw yn ardal yr awdurdod hwnnw, mae cais i'w wneud i'r awdurdod lleol hwnnw.

**Nodyn 2: Nodi'r person yn Rhan 2, Adran B 2.14**
Os yw cais yn cael ei wneud ar ran busnes/sefydliad, enw unigolyn fel y Perchennog, y Rheolwr, Cyfarwyddwr y cwmni neu Gyfarwyddwr gweithredol y busnes/sefydliad yw'r enw y mae'n ofynnol ei roi yn y ffurflen gais.

**Nodyn 3: Nodi'r person yn Rhan 2, Adran B 2.16**
Rhaid i geiswyr nodi unigolyn a fydd yn berson cyswllt ar gyfer y cais ac yn ystod cyfnod para'r dystysgrif gymeradwyo arfaethedig. Caiff yr unigolyn hwn fod yn Rheolwr rhanbarthol, yn Rheolwr ardal, neu'n Rheolwr safle ar gyfer y fangre/cerbyd a chaiff ymwneud â rheoli'r fangre/cerbyd yn weithredol/o ddydd i ddydd. Caiff yr unigolyn hwn fod yr un unigolyn â'r person sydd wedi ei nodi yn **Rhan2, Adran B 2.14** ond bydd yn ofynnol iddo ddarparu dogfennau hunaniaeth a rhaid iddo feddu ar Ddyfarniad Lefel 2 a reoleiddir dilys.

**Nodyn 4: Ystyr triniaeth arbennig**
Mae i'r triniaethau arbennig aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatŵio oll yr un ystyron ag a roddir yn adran 94(1) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017.

**Nodyn 5: Cyflawni gweithgareddau eraill yng nghwrs busnes**
Caiff ceisydd gynnwys manylion ynghylch gweithgareddau eraill a gyflawnir yn y fangre/cerbyd yng nghwrs busnes ond nad ydynt yn cael eu hystyried yn driniaethau arbennig. Er enghraifft, gweithgareddau fel rhoi triniaethau harddwch, trin gwallt, manwerthu etc.

**Nodyn 6: Nifer y gweithfannau**

Ystyr y term "gweithfan" yw'r rhan o'r man gwaith triniaethau arbennig sy'n cynnwys y canlynol—

(a) gwely, cadair neu gyffelyb, y mae cleient yn eistedd neu'n gorwedd arno neu arni i gael triniaeth arbennig a roddir gan ddeiliad trwydded,

(b) cadair neu stôl y mae deiliad y drwydded yn eistedd arni i roi'r driniaeth arbennig (os yw'n gymwys), ac

(c) arwyneb gwaith a ddefnyddir ar gyfer gosod a storio'r offerynnau a'r cynhyrchion a ddefnyddir gan ddeiliad y drwydded i roi'r driniaeth arbennig.

Wrth benderfynu faint o weithfannau y mae ceisydd yn ceisio cymeradwyaeth ar eu cyfer, rhaid i'r ceisydd ystyried maint a siâp y fangre/cerbyd a sicrhau bod digon o le rhwng pob gweithfan er mwyn galluogi rhoi'r driniaeth/triniaethau arbennig yn ddiogel ac yn hylan. Gweler y cyfarwyddyd anstatudol am ragor o wybodaeth.

**Nodyn 7: Man gwaith triniaethau arbennig**

Ystyr y term "man gwaith triniaethau arbennig" yw man neu ystafell ddynodedig a ddefnyddir at ddiben rhoi triniaeth arbennig, ac o ran man gwaith triniaethau arbennig—

(a) rhaid iddo gynnwys o leiaf—

  (i) 1 weithfan,

  (ii) 1 basn golchi dwylo,

  (iii) 1 bin gwastraff,

  (iv) 1 bin offer miniog (os yw'n gymwys), a

(b) caiff hefyd gynnwys cyfleusterau eraill a chyfarpar arall i gefnogi'r gwaith o roi'r driniaeth

arbennig.

**Nodyn 8: Offer miniog**
Ystyr y term "offer miniog" yw gwrthrychau neu offerynnau sy'n gallu torri, crafu, pricio neu achosi anaf i'r croen, ac mae'n cynnwys pob math o nodwydd a rasel untro.

**Nodyn 9: Ffotograff o'r cerbyd**
Mae'n ofynnol i geiswyr gyflwyno ffotograff lliw diweddar o'r cerbyd sy'n ddarostyngedig i'w gymeradwyo gan yr awdurdod lleol. Mae ffotograff yn ofynnol ar gyfer pob cerbyd, gan gynnwys cerbydau sydd â phlatiau cofrestru.

**Nodyn 10: Lleoliad y cerbyd**
Er y bydd tystysgrif gymeradwyo yn awdurdodi rhoi triniaethau arbennig mewn cerbyd yn unrhyw le yng Nghymru, gofynnir i geiswyr ddarparu manylion pellach ynghylch lleoliad arferol y cerbyd yng Nghymru ac ynghylch ardaloedd awdurdodau lleol lle y mae'r cerbyd yn debygol o gael ei ddefnyddio i roi triniaethau arbennig.

**Nodyn 11: Trwydded triniaeth arbennig**
Mae i trwydded triniaeth arbennig yr un ystyr ag a roddir yn adran 59 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, h.y. trwydded a ddyroddir gan awdurdod lleol, sy'n awdurdodi i'r driniaeth arbennig (neu'r triniaethau arbennig) a bennir yn y drwydded gaei ei rhoi (neu eu rhoi) gan ddeiliad y drwydded.

**Nodyn 12: Rhif y drwydded**

Ystyr rhif y drwydded yw'r cyfeirnod a roddir gan yr awdurdod lleol i'r dystysgrif gymeradwyo sy'n unigryw i'r dystysgrif honno ac a bennir ynddi.

**Nodyn 13: Sicrwydd yswiriant**
Ystyr y term "sicrwydd yswiriant" yw polisi yswiriant atebolrwydd cyhoeddus dilys a ddyroddwyd gan yswiriwr awdurdodedig i yswirio'r ceisydd mewn perthynas â'r fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd.

**Nodyn 14: Peidio â chydymffurfio â'r amodau cymeradwyo mandadol**
Dylai ceiswyr fod yn ymwybodol y gall tystysgrif gymeradwyo gael ei dirymu os yw awdurdod lleol wedi ei fodloni bod deiliad y dystysgrif wedi methu â chydymffurfio ag amod cymeradwyo mandadol cymwys, a bod peidio â chydymffurfio yn peri risg sylweddol, neu y gallai beri risg sylweddol, o niwed i iechyd dynol. Gweler adran 73 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 am fanylion pellach.

**Nodyn 15: Talu'r ffi am gais**
Cynghorir ceiswyr i gysylltu â'r awdurdod lleol perthnasol sy'n dyroddi i gael rhagor o wybodaeth am swm y ffi am gais sy'n ddyledus a sut y mae taliad am y ffi am gais i'w wneud. Gellir dod o hyd i'r wybodaeth hon ar wefan yr awdurdod lleol.

**Nodyn 16: Cyflwyno cais**
Cynghorir ceiswyr i gysylltu â'r awdurdod lleol perthnasol sy'n dyroddi i gael rhagor o wybodaeth am sut y mae cais am dystysgrif gymeradwyo i'w gyflwyno. Gellir dod o hyd i'r wybodaeth hon ar wefan yr awdurdod lleol.

**Nodyn 17: Plan o fangre neu gerbyd**
Rhaid i blan ddod gyda'r cais a rhaid i'r plan gynnwys y canlynol (pan fo'n briodol)—

(a) y mynedfeydd i'r fangre neu'r cerbyd a'r allanfeydd ohoni neu ohono,

(b) mesuriadau a disgrifiad o siâp y mannau (megis ystafelloedd) (os oes rhai) sydd yn y fangre neu'r cerbyd,

(c) y mynedfeydd i'r mannau (megis ystafelloedd) (os oes rhai) sydd yn y fangre neu'r cerbyd, a'r allanfeydd ohonynt,

(d) lleoliad y canlynol (os oes rhai)—

(i) sinciau cyfarpar,

(ii) biniau offer miniog,

(iii) ystafelloedd staff,

(iv) mannau, cyfleusterau neu ystafelloedd storio ar gyfer cynhyrchion a/neu gyfarpar,

(v) toiledau,

(vi) mannau neu ystafelloedd aros,

(vii) basnau golchi dwylo,

(viii) biniau gwastraff,

(ix) ffenestri, a

(x) gweithfannau.

**Nodyn 18: Tystiolaeth o Ddyfarniad Lefel 2 a reoleiddir**
Rhaid i geiswyr feddu ar Ddyfarniad Lefel 2 mewn Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Ymarferwyr Triniaethau Arbennig (dyfarniad a reoleiddir gan Gymwysterau Cymru). Rhaid i geiswyr ddarparu tystiolaeth o'r dyfarniad hwn drwy amgáu naill ai'r dystysgrif wreiddiol neu gopi o'r dystysgrif. Os darperir copi o'r dystysgrif, rhaid rhoi'r dystysgrif wreiddiol ar gael, ar gais, i'r awdurdod lleol sy'n dyroddi.

Yn achos unigolyn sy'n gwneud cais am dystysgrif gymeradwyo, rhaid i'r Dyfarniad Lefel 2 a reoleiddir fod wedi ei ddyfarnu i'r unigolyn hwnnw.

Os yw'r cais yn cael ei wneud ar ran busnes/sefydliad, rhaid i'r Dyfarniad Lefel 2 a reoleiddir fod wedi ei ddyfarnu i'r unigolyn a enwir/sydd wedi ei nodi yn **Rhan 2, Adran B 2.16** o'r ffurflen gais.

**Nodyn 19: Dogfennau adnabod**
Yn achos unigolyn sy'n gwneud cais am dystysgrif gymeradwyo, rhaid iddo ddarparu prawf o'i enw llawn a'i ddyddiad geni.

Yn achos cais sy'n cael ei wneud ar ran busnes/sefydliad, rhaid i'r unigolyn sydd wedi ei nodi yn **Rhan 2, Adran B 2.16** o'r ffurflen gais ddarparu ei ddogfennau adnabod.

Caniateir y mathau canlynol o ddogfennau adnabod ffotograffig:

- Pasbort dilys neu drwydded yrru ddilys,
- Os nad oes gan y ceisydd yr un o'r uchod yna ystyrir bod y cardiau adnabod ffotograffig canlynol yn addas: trwydded breswylio fiometrig; cerdyn adnabod Lluoedd EF; cerdyn adnabod cenedlaethol yr AEE; Cerdyn Pasbort Gwyddelig; fisa neu drwydded waith.

Caiff ceiswyr ddarparu copïau o'u dogfennau adnabod i ddod gyda'r ffurflen gais ond rhaid rhoi'r dogfennau adnabod gwreiddiol ar gael, ar gais, i'r awdurdod lleol sy'n dyroddi.

# ATODLEN 2 Rheoliad 10(1)

## Ffurf a chynnwys y dystysgrif gymeradwyo

**Rhif:** *[Mewnosoder rhif y dystysgrif gymeradwyo]*
**No:** *[Insert approval certificate number]*

**TYSTYSGRIF GYMERADWYO**
**APPROVAL CERTIFICATE**

***Mae'r gymeradwyaeth hon wedi ei dyroddi o dan adran 70 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 gan***
[*Mewnosoder enw'r awdurdod lleol sy'n dyroddi a'r logo*]
***This approval is issued under section 70 of the Public Health (Wales) Act 2017 by***
[*Insert the name of the issuing local authority and logo*]

**Rhan 1 – Manylion deiliad y dystysgrif**
**Part 1 – Details of the certificate holder**

**Mae'r dystysgrif gymeradwyo hon wedi ei dyroddi i:**
**This approval certificate is issued to:**

……………………………………………………………………………………………...…………
[*Mewnosoder enw llawn (h.y. endid cyfreithiol) busnes/sefydliad y fangre/cerbyd. Os yw cais wedi ei wneud gan unigolyn (e.e. nid ar ran busnes/sefydliad), mae enw llawn yr unigolyn hwnnw i'w fewnosod.*]
[*Insert full name (i.e. legal entity) of the business/organisation of the premises/vehicle. If an application has been made by an individual (e.g. not on behalf of a business/organisation) the full name of that individual is to be inserted.*]

**Rhan 2 – Manylion y dystysgrif gymeradwyo**
**Part 2 – Details of approval certificate**

**Daeth y dystysgrif gymeradwyo hon i rym ar:**
**This approval certificate came into effect on:**

…………………………………………………………………………………………………………
[*Mewnosoder y dyddiad cymeradwyo*]
[*Insert approval date*]

**Bydd y dystysgrif gymeradwyo hon yn dod i ben ar:**
**This approval certificate will expire on:**

…………………………………………………………………………………………………………
[*Mewnosoder y dyddiad dod i ben*]
[*Insert expiry date*]

**Mae'r dystysgrif gymeradwyo hon yn awdurdodi'r driniaeth/triniaethau arbennig a ganlyn:**
**This approval certificate authorises the following special procedure(s):**

…………………………………………………………………………………………………………
[*Mewnosoder y driniaeth/triniaethau arbennig h.y. Aciwbigo, Tyllu'r Corff, Electrolysis, Tatŵio.*]
[*Insert special procedure(s) i.e. Acupuncture, Body Piercing, Electrolysis, Tattooing.*]

**I'w rhoi yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd a ganlyn** [*dileer fel y bo'n gymwys*]:

**To be performed from the following approved premises or vehicle** [*delete as applicable*]:

…………………………………………………………………………………………………………………
[*Yn achos cymeradwyo mangre, rhaid mewnosod cyfeiriad y fangre. Yn achos cymeradwyo cerbyd, rhaid mewnosod rhif cofrestru'r cerbyd. Os nad oes gan y cerbyd rif cofrestru, rhaid i'r awdurdod lleol nodi'r cerbyd ym mha ffordd bynnag y mae'n ystyried ei bod yn briodol a mewnosod y manylion hynny yma.*]
[*In the case of approval of premises, the address of the premises must be inserted. In the case of approval of a vehicle, the registration number of the vehicle must be inserted. If the vehicle does not have a registration number, the local authority must identify the vehicle in whatever way they consider appropriate and insert those details here.*]

**Uchafswm nifer y gweithfannau mewn cysylltiad â'r fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd uchod yw** [*dileer fel y bo'n gymwys*]:
**The maximum number of workstations in respect of the above approved premises or vehicle** [*delete as applicable*]:

………………………………………..

**Llofnodwyd ar ran yr awdurdod lleol sy'n dyroddi**
**Signed on behalf of the issuing local authority**

…………………………………………………………………………………………………………………
[*Mewnosoder llofnod y person sydd wedi ei awdurdodi i lofnodi ar ran yr awdurdod. Pan fo'r dystysgrif gymeradwyo wedi ei dyroddi'n electronig, rhaid cynhyrchu'r llofnod yn electronig a rhaid iddo fod yn gopi o lofnod ysgrifenedig y person.*]
[*Insert signature of person authorised to sign on behalf of the authority. Where the approval certificate is issued electronically, the signature must be generated electronically and be a copy of the person's written signature.*]

**MAE'R DYSTYSGRIF GYMERADWYO HON YN DDAROSTYNGEDIG I'R AMODAU CYMERADWYO MANDADOL SYDD YNGHLWM WRTH Y DYSTYSGRIF HON**
**THIS APPROVAL CERTIFICATE IS SUBJECT TO THE MANDATORY APPROVAL CONDITIONS ATTACHED TO THIS CERTIFICATE**

**NID YW'R DYSTYSGRIF HON YN DROSGLWYDDADWY**
**THIS APPROVAL CERTIFICATE IS NOT TRANSFERABLE**

---

# ATODLEN 3 Rheoliad 11(2)

## Amodau cymeradwyo mandadol: tystysgrif gymeradwyo

### Cyffredinol

**1.**—(1) Ni chaiff deiliad y dystysgrif ganiatáu i unrhyw ddeiliaid trwydded roi triniaeth arbennig pan fo'r fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd, neu unrhyw ran ohoni neu ohono, yn peri, neu'n debygol o beri, risg sylweddol o niwed i iechyd dynol.

(2) Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd yn cael ei defnyddio neu ei ddefnyddio yn y fath fodd sy'n lleihau'r risg o niwed i iechyd dynol.

(3) Ni chaiff deiliad y dystysgrif beryglu diogelwch, iechyd na llesiant cleientiaid, deiliaid trwydded, staff nac aelodau o'r cyhoedd sy'n defnyddio ei fangre neu ei gerbyd.

(4) Rhaid i ddeiliad y dystysgrif gadw a chynnal cofnod cyfredol o'r holl ddeiliaid trwydded sy'n gweithredu yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd, gan gynnwys pob triniaeth arbennig y mae deiliad y drwydded wedi ei drwyddedu i'w rhoi.

(5) Ni chaiff deiliad y dystysgrif ganiatáu i ddeiliaid trwydded weithredu yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd ond pan fo'r fangre neu'r cerbyd wedi ei nodi yn ei drwydded triniaeth arbennig.

(6) Ni chaniateir mynd y tu hwnt i uchafswm nifer y gweithfannau a gymeradwywyd i'w defnyddio yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd ac sydd wedi ei nodi ar y dystysgrif gymeradwyo.

(7) Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod yr holl ddeiliaid trwydded sy'n gweithredu yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd yn gweithredu mewn ffordd nad yw'n mynd yn groes i'r drwydded triniaeth arbennig a ddyroddwyd mewn perthynas â'r triniaethau arbennig a nodir yn y drwydded triniaeth arbennig (gan gynnwys yr amodau trwyddedu mandadol).

### Materion sy'n ymwneud â'r dystysgrif gymeradwyo

**2.**—(1) Rhaid i gopi o'r amodau cymeradwyo mandadol cymwys fod ar gael yn rhwydd i'w arolygu ar gais gan swyddog awdurdodedig neu gan gleient.

(2) Ni chaniateir addasu'r dystysgrif gymeradwyo mewn unrhyw ffordd a rhaid iddi barhau i fod yn ddarllenadwy.

(3) Mewn achos pan fo’r dystysgrif gymeradwyo wedi mynd ar goll, wedi cael ei dwyn neu wedi cael ei difrodi, rhaid i ddeiliad y dystysgrif wneud cais, o fewn cyfnod rhesymol, i gael un newydd yn ei lle oddi wrth yr awdurdod lleol sy’n dyroddi.

(4) Pan ddaw’r dystysgrif gymeradwyo i ben, rhaid dychwelyd y dystysgrif sydd wedi dod i ben i’r awdurdod lleol sy’n dyroddi yn unol â’r cyfarwyddiadau a ddarperir gan yr awdurdod hwnnw.

(5) Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod ganddo sicrwydd yswiriant drwy’r amser yn ystod cyfnod y dystysgrif gymeradwyo. Rhaid i dystiolaeth o sicrwydd yswiriant dilys fod ar gael yn rhwydd i’w harolygu gan unrhyw swyddog awdurdodedig.

**Materion sy’n ymwneud ag arddangos hysbysiadau a mynediad cyfyngedig**

**3.**—(1) Rhaid i’r dystysgrif gymeradwyo gael ei harddangos ym mynedfa cwsmeriaid y fangre neu’r cerbyd a gymeradwywyd neu gerllaw iddi, neu yn y rhan ohoni neu ohono sy’n destun y dystysgrif gymeradwyo, ac mewn safle sy’n galluogi cleientiaid ac aelodau o’r cyhoedd i’w darllen yn hawdd.

(2) Rhaid i ddeiliad y dystysgrif arddangos hysbysiad sy’n datgan na fydd triniaethau arbennig yn cael eu rhoi i unrhyw berson sy’n feddw neu yr ymddengys ei fod yn feddw, pa un ai yn rhinwedd diod, cyffuriau neu unrhyw fodd arall. Rhaid i’r hysbysiad hwn fod mewn lleoliad sy’n galluogi cleientiaid ac aelodau o’r cyhoedd i’w ddarllen yn hawdd.

(3) Ni chaiff deiliad y dystysgrif ganiatáu i anifeiliaid ddod i mewn i’r fangre neu’r cerbyd a gymeradwywyd ac eithrio cŵn cymorth cofrestredig sy’n dod gyda chleient.

(4) Rhaid arddangos yn glir hysbysiad sy’n cynnwys cyfarwyddiadau golchi dwylo wrth bob basn golchi dwylo yn y fangre neu’r cerbyd a gymeradwywyd.

(5) Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod deiliad y drwydded yn glynu wrth y rhwymedigaeth sydd arno na chaiff ond caniatáu i gleient ddod ag unigolyn arall gydag ef os nad yw presenoldeb yr unigolyn arall hwnnw yn ystod y driniaeth arbennig yn peri risg uwch o haint.

(6) Rhaid cyfyngu ar fynediad i’r man gwaith triniaethau arbennig i neb ond deiliad y drwydded, deiliad y dystysgrif, personau sydd wedi eu hawdurdodi gan ddeiliad y dystysgrif neu ddeiliad y drwydded (sy’n cynnwys y cleient ac unigolyn sy’n dod gyda’r cleient) a chŵn cymorth cofrestredig (os ydynt yn gymwys). Dim ond rhan o’r fangre neu’r cerbyd a gymeradwywyd y caniateir i unrhyw unigolion eraill gael mynediad iddi pan na fo hynny’n peri risg uwch o haint.

(7) Rhaid nodi'n glir y mannau y gwaherddir mynediad y cyhoedd iddynt yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd a rhaid cyfyngu ar fynediad aelodau o'r cyhoedd i'r canlynol—

(a) gweithfannau (oni bai eu bod wedi eu hawdurdodi gan ddeiliad y dystysgrif neu ddeiliad y drwydded (i gynnwys cleient ac unigolyn sy'n dod gyda chleient)),

(b) mannau ac ystafelloedd lle y mae sbwriel sy'n deillio o'r driniaeth arbennig yn cael ei gasglu a'i storio, ac

(c) unrhyw fannau lle y mae cyfarpar a chynhyrchion sy'n ymwneud â thriniaethau arbennig yn cael ei storio neu eu storio.

**Dyluniad, strwythur a'r amgylchedd ffisegol**

**4.**—(1) Ni chaniateir rhoi triniaeth arbennig ond mewn gweithfan yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd.

(2) Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod dyluniad, maint, strwythur a chyflwr y fangre neu'r cerbyd yn galluogi gwaith glanhau a diheintio effeithiol.

(3) Rhaid i'r holl arwynebau, gosodiadau, ffitiadau a chyfleusterau mewnol yn y man gwaith triniaethau arbennig fod o'r fath ddeunydd a dyluniad, a chael eu cadw mewn cyflwr da, i alluogi gwaith glanhau a diheintio effeithiol pan fo halogiad gan waed neu hylifau corfforol yn debygol.

(4) Pan ddarperir man aros, rhaid ei wahanu'n ffisegol oddi wrth y man gwaith triniaethau arbennig.

(5) Rhaid bod gan y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd gyfleusterau toiled y gall deiliaid trwydded, staff a chleientiaid eu cyrraedd a'u defnyddio'n rhwydd.

(6) Pan ddarperir cyfleusterau toiled yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd, rhaid iddynt gael eu hawyru a chynnwys basn golchi dwylo sydd â chyflenwad digonol o ddŵr rhedegog (poeth ac oer neu gymysg), sebon hylif a thywelion papur wedi eu storio mewn cyflenwr caeedig.

(7) Rhaid i'r weithfan fod â digon o le er mwyn galluogi rhoi'r driniaeth arbennig yn ddiogel ac yn hylan.

(8) Rhaid i'r man gwaith triniaethau arbennig gynnwys yr holl weithfannau a'r holl gyfleusterau ar gyfer storio'n lân gyfarpar, offerynnau a chynhyrchion a ddefnyddir ar gyfer triniaethau arbennig, neu mewn cysylltiad â hwy, er mwyn atal y risg o halogiad.

(9) Rhaid darparu cyfleusterau addas ar gyfer storio'n hylan gyfarpar, offerynnau a chynhyrchion a ddefnyddir ar gyfer triniaethau arbennig, neu mewn cysylltiad â hwy, er mwyn osgoi'r risg o halogiad.

(10) Rhaid darparu trefniadau addas ar gyfer storio, rheoli ac adalw cofnodion cleientiaid yn ddiogel, sy'n ymwneud â'r triniaethau arbennig sy'n cael eu cynnig a'u rhoi.

(11) Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod pecyn cymorth cyntaf sydd wedi ei stocio'n addas ac sydd ar gael yn rhwydd yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd sy'n diwallu anghenion cymorth cyntaf y triniaethau arbennig a roddir yno.

(12) Rhaid i'r goleuadau fod yn addas ac yn ddigonol i sicrhau bod y fangre neu'r cerbyd yn gweithredu'n ddiogel ac i hwyluso gwaith glanhau a diheintio effeithiol. Pan fo angen, rhaid darparu goleuadau lleol ym mhob gweithfan i sicrhau bod y driniaeth arbennig yn cael ei rhoi yn ddiogel ac yn hylan.

(13) Rhaid darparu awyriad digonol i'r man gwaith triniaethau arbennig yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd.

(14) Rhaid darparu nifer addas o fasnau golchi dwylo sydd ar gael yn rhwydd ym mhob man gwaith triniaethau arbennig. Rhaid i'r basnau golchi dwylo weithio'n iawn a bod mewn cyflwr da.

(15) Rhaid i'r holl fasnau golchi dwylo mewn man gwaith triniaethau arbennig gynnwys cyflenwad digonol o ddŵr rhedegog (poeth ac oer neu gymysg), sebon hylif a thywelion papur wedi eu storio mewn cyflenwr caeedig sy'n agos i'r basn golchi dwylo.

(16) Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod yr holl fasnau golchi dwylo at ddefnydd y deiliaid trwydded yn cael eu stocio'n llawn â sebon hylif a thywelion papur.

(17) Ni chaniateir defnyddio basnau golchi dwylo ond at ddibenion golchi dwylo ac elinau.

### Dihalogi, glanhau, diheintio a sterileiddio

**5.**—(1) Rhaid cadw pob rhan o'r fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd yn lân ac yn daclus.

(2) Rhaid gweithredu amserlen lanhau sy'n addas ac yn ddigonol ar gyfer y fangre, y gosodiadau, y ffitiadau, y dodrefn, y cyfarpar a'r offerynnau.

(3) Rhaid darparu cyfarpar, cyfleusterau a threfniadau ar gyfer dihalogi, glanhau, diheintio a, phan fo angen, sterileiddio teclynnau gwaith, offerynnau ac eitemau eraill. Rhaid gwahanu'r ddarpariaeth hon oddi wrth yr holl weithfannau, a rhaid iddi adlewyrchu'r triniaethau a roddir yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd.

(4) Rhaid defnyddio, cynnal a gwasanaethu'r holl gyfarpar a ddefnyddir at ddiben glanhau, diheintio neu sterileiddio yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a rhaid cael cofnodion ar ffurf dogfen i ddangos bod y

profion ansawdd priodol wedi eu cynnal i ddilysu'r defnydd o'r cyfarpar hwnnw.

### Gwastraff gan gynnwys offer miniog

**6.**—(1) Rhaid gwneud darpariaeth addas ar gyfer casglu, storio a gwaredu gwastraff a sbwriel arall.

(2) Rhaid darparu nifer digonol o finiau gwastraff hawdd eu glanhau, nad ydynt yn cael eu gweithredu â llaw, yn y man gwaith triniaethau arbennig. Rhaid i'r biniau gwastraff fod wedi eu hadeiladu'n briodol a chael eu cadw mewn cyflwr da a glân.

(3) Rhaid i ddeiliad y dystysgrif ddarparu nifer addas o finiau offer miniog a sicrhau eu bod mewn lleoliad diogel yn agos i'r holl weithfannau.

(4) Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod darpariaeth addas wedi ei gwneud ar gyfer gwaredu gwastraff domestig a gwastraff clinigol nad yw'n beryglus, ac ar gyfer eu storio ar wahân.

(5) Rhaid marcio tarddle (enw a chyfeiriad y busnes) yr holl wastraff clinigol nad yw'n beryglus (bagiau gwastraff melyn a biniau offer miniog melyn) cyn eu gwaredu.

(6) Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod y gwastraff clinigol, nad yw'n beryglus (bagiau gwastraff melyn a biniau offer miniog melyn) yn cael ei gasglu'n rheolaidd gan gludwr gwastraff trwyddedig. Rhaid cadw cofnod o wastraff rheoledig a draddodir yn y fangre neu'r cerbyd a rhaid iddo fod ar gael i'w arolygu gan swyddog awdurdodedig.

### Diffiniadau

ystyr "amodau trwyddedu mandadol" ("*mandatory licensing conditions*") yw'r amodau y mae trwydded triniaeth arbennig yn ddarostyngedig iddynt;

ystyr "bin offer miniog" ("*sharps bin*") yw cynhwysydd anhyblyg, arbenigol sy'n cydymffurfio â Chod CGE 20 01 99(**1**) ac sydd wedi ei gynllunio i waredu'n ddiogel offer miniog sy'n gysylltiedig â rhoi triniaethau arbennig;

---

(**1**) Cod chwe digid yw Cod Catalog Gwastraff Ewropeaidd ("CGE") a ddefnyddir i nodi gwastraff (gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus) fel y'i rhestrir yn y Catalog Gwastraff Ewropeaidd. Mae Cod CGE yn nodi (ymhlith pethau eraill) y rheolaethau sy'n gymwys i symud a rheoli'r gwastraff. Mae Cod CGE 20 01 99 yn ymwneud â gwastraff clinigol heintus a pheryglus fel y nodir ar dudalen 47, paragraff 4.99 o Femorandwm Technegol Iechyd Cymru. *Gweler* https://nwssp.nhs.wales/ourservices/specialist-estates-services/specialist-estates-services-documents/whtms-library/whtm-07-01-safe-management-of-healthcare-waste-pdf/ (ar gael yn Saesneg yn unig).

ystyr “gweithfan” (“*workstation*”) yw’r rhan o’r man gwaith triniaethau arbennig sy’n cynnwys y canlynol—

(a) gwely, cadair neu gyffelyb, y mae cleient yn eistedd neu’n gorwedd arno neu arni i gael triniaeth arbennig a roddir gan ddeiliad trwydded,

(b) cadair neu stôl y mae deiliad y drwydded yn eistedd arni i roi’r driniaeth arbennig (os yw’n gymwys), ac

(c) arwyneb gwaith a ddefnyddir ar gyfer gosod a storio’r offerynnau a’r cynhyrchion a ddefnyddir gan ddeiliad y drwydded i roi’r driniaeth arbennig;

ystyr “offer miniog” (“*sharps*”) yw gwrthrychau neu offerynnau sy’n gallu torri, crafu, pricio neu achosi anaf i’r croen ac mae’n cynnwys pob math o nodwydd a rasel untro;

ystyr “man gwaith triniaethau arbennig” (“*special procedures work area*”) yw ardal neu ystafell ddynodedig a ddefnyddir at ddiben rhoi triniaeth arbennig, ac o ran man gwaith triniaethau arbennig—

(a) rhaid iddo gynnwys o leiaf—

(i) 1 weithfan,

(ii) 1 basn golchi dwylo,

(iii) 1 bin gwastraff,

(iv) 1 bin offer miniog (os yw’n gymwys), a

(b) caiff hefyd gynnwys cyfleusterau eraill a chyfarpar arall i gefnogi’r gwaith o roi’r driniaeth arbennig;

ystyr “sicrwydd yswiriant” (“*insurance cover*”) yw polisi yswiriant atebolrwydd cyhoeddus dilys a ddyroddwyd gan yswiriwr awdurdodedig i yswirio’r ceisydd mewn perthynas â’r fangre neu’r cerbyd a gymeradwywyd;

mae i “swyddog awdurdodedig” (“*authorised officer*”) yr ystyr a roddir yn adran 83 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017;

mae i “trwydded triniaeth arbennig” (“*special procedure licence*”) yr ystyr a roddir yn adran 59 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017;

ystyr “yswiriwr awdurdodedig” (“*authorised insurer*”), mewn perthynas â pholisi yswiriant, yw person a gaiff gynnal yn y Deyrnas Unedig y busnes o roi effaith i gontractau yswiriant, neu o gyflawni contractau yswiriant, o’r math a ddarperir o dan y polisi yswiriant.

# ATODLEN 4 Rheoliad 11(3)

## Amodau cymeradwyo mandadol: tystysgrif gymeradwyo dros dro

**Cyffredinol**

**1.**—(1) Ni chaiff deiliad y dystysgrif ganiatáu i unrhyw ddeiliaid trwydded roi triniaeth arbennig pan fo'r fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd, neu unrhyw ran ohoni neu ohono, yn peri, neu'n debygol o beri, risg sylweddol o niwed i iechyd dynol.

(2) Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd yn cael ei defnyddio neu ei ddefnyddio yn y fath fodd sy'n lleihau'r risg o niwed i iechyd dynol.

(3) Ni chaiff deiliad y dystysgrif beryglu diogelwch, iechyd na llesiant cleientiaid, deiliaid trwydded, staff nac aelodau o'r cyhoedd sy'n defnyddio ei fangre neu ei gerbyd.

(4) Rhaid i ddeiliad y dystysgrif gadw a chynnal cofnod cyfredol o'r holl ddeiliaid trwydded sy'n gweithredu yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd, gan gynnwys pob triniaeth arbennig y mae deiliad y drwydded wedi ei drwyddedu i'w rhoi.

(5) Ni chaiff deiliad y dystysgrif ganiatáu i ddeiliaid trwydded weithredu yn y fangre neu ei gerbyd a gymeradwywyd ond pan fo'r fangre neu'r cerbyd wedi ei phennu neu wedi ei bennu yn ei drwydded triniaeth arbennig.

(6) Ni chaniateir mynd y tu hwnt i uchafswm nifer y gweithfannau a gymeradwywyd i'w defnyddio yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd ac sydd wedi ei nodi ar y dystysgrif gymeradwyo.

(7) Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod yr holl ddeiliaid trwydded sy'n gweithredu yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd yn gweithredu mewn ffordd nad yw'n mynd yn groes i'r drwydded triniaeth arbennig a ddyroddwyd mewn perthynas â'r triniaethau arbennig a nodir yn y drwydded triniaeth arbennig (gan gynnwys yr amodau trwyddedu mandadol).

**Materion sy'n ymwneud â'r dystysgrif gymeradwyo dros dro**

**2.**—(1) Rhaid i gopi o'r amodau cymeradwyo mandadol cymwys fod ar gael yn rhwydd i'w arolygu ar gais gan swyddog awdurdodedig neu gan gleient.

(2) Ni chaniateir addasu'r dystysgrif gymeradwyo mewn unrhyw ffordd a rhaid iddi barhau i fod yn ddarllenadwy.

(3) Mewn achos pan fo'r dystysgrif gymeradwyo wedi mynd ar goll, wedi cael ei dwyn neu wedi cael ei difrodi, rhaid i ddeiliad y dystysgrif wneud cais, o fewn cyfnod rhesymol, i gael un newydd yn ei lle oddi wrth yr awdurdod lleol sy'n dyroddi.

(4) Pan ddaw'r dystysgrif gymeradwyo i ben, rhaid dychwelyd y dystysgrif sydd wedi dod i ben i'r awdurdod lleol sy'n dyroddi yn unol â'r cyfarwyddiadau a ddarperir gan yr awdurdod hwnnw.

(5) Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod ganddo sicrwydd yswiriant drwy'r amser yn ystod cyfnod y dystysgrif gymeradwyo pan fydd triniaethau arbennig yn cael eu rhoi yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd. Rhaid i dystiolaeth o sicrwydd yswiriant dilys fod ar gael yn rhwydd i'w harolygu gan unrhyw swyddog awdurdodedig.

**Materion sy'n ymwneud ag arddangos hysbysiadau a mynediad cyfyngedig**

**3.**—(1) Rhaid i'r dystysgrif gymeradwyo gael ei harddangos ym mynedfa cwsmeriaid y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd neu gerllaw iddi, neu yn y rhan ohoni neu ohono sy'n destun y dystysgrif gymeradwyo, ac mewn safle sy'n galluogi cleientiaid ac aelodau o'r cyhoedd i'w darllen yn hawdd.

(2) Rhaid i ddeiliad y dystysgrif arddangos hysbysiad sy'n datgan na fydd triniaethau arbennig yn cael eu rhoi i unrhyw berson sy'n feddw neu yr ymddengys ei fod yn feddw, pa un ai yn rhinwedd diod, cyffuriau neu unrhyw fodd arall. Rhaid i'r hysbysiad hwn fod mewn lleoliad sy'n galluogi cleientiaid ac aelodau o'r cyhoedd i'w ddarllen yn hawdd.

(3) Ni chaiff deiliad y dystysgrif ganiatáu i anifeiliaid ddod i mewn i'r fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd ac eithrio cŵn cymorth cofrestredig sy'n dod gyda chleient.

(4) Rhaid cyfyngu ar fynediad i fan gwaith triniaethau arbennig i neb ond deiliad y drwydded, rheolwr y digwyddiad (fel deiliad y dystysgrif), personau sydd wedi eu hawdurdodi gan ddeiliad y dystysgrif neu ddeiliad y drwydded (sy'n cynnwys y cleient ac unigolyn sy'n dod gyda'r cleient) a chŵn cymorth cofrestredig (os ydynt yn gymwys).

(5) Rhaid arddangos yn glir hysbysiad sy'n cynnwys cyfarwyddiadau golchi dwylo wrth bob basn golchi dwylo a ddefnyddir gan ddeiliaid trwydded yn unig.

(6) Rhaid nodi mannau mynediad y cyhoedd yn glir a rhaid cyfyngu ar fynediad aelodau o'r cyhoedd i'r canlynol—

(a) gweithfannau (oni bai eu bod wedi eu hawdurdodi gan ddeiliad y dystysgrif neu ddeiliad y drwydded (i gynnwys cleient ac unigolyn sy'n dod gyda chleient)),

(b) mannau ac ystafelloedd lle y mae sbwriel sy'n deillio o'r driniaeth arbennig yn cael ei gasglu a'i storio, ac

(c) unrhyw fannau lle y mae cyfarpar a chynhyrchion sy'n ymwneud â thriniaethau arbennig yn cael ei storio neu eu storio.

**Dyluniad, strwythur a'r amgylchedd ffisegol**

**4.**—(1) Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod dyluniad, maint, strwythur a chyflwr y fangre neu'r cerbyd yn galluogi gwaith glanhau a diheintio effeithiol pan fo halogiad gan waed neu hylifau corfforol yn debygol.

(2) Ni chaniateir rhoi triniaeth arbennig ond yn y weithfan sydd wedi ei dynodi at y diben hwnnw.

(3) Rhaid i'r holl arwynebau, gosodiadau, ffitiadau a chyfleusterau mewnol yn y man gwaith triniaethau arbennig fod o'r fath ddeunydd a dyluniad, a chael eu cadw mewn cyflwr da, i alluogi gwaith glanhau a diheintio effeithiol pan fo halogiad gan waed neu hylifau corfforol yn debygol.

(4) Rhaid bod gan y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd gyfleusterau toiled y gall deiliaid trwydded, staff a chleientiaid eu cyrraedd a'u defnyddio'n rhwydd.

(5) Pan ddarperir cyfleusterau toiled yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd, rhaid iddynt gael eu hawyru a chynnwys basn golchi dwylo sydd â chyflenwad digonol o ddŵr rhedegog (poeth ac oer neu gymysg), sebon hylif a thywelion papur wedi eu storio mewn cyflenwr caeedig.

(6) Rhaid i'r weithfan fod â digon o le er mwyn galluogi rhoi'r driniaeth arbennig yn ddiogel ac yn hylan.

(7) Rhaid i'r man gwaith triniaethau arbennig gynnwys yr holl weithfannau a'r holl gyfleusterau ar gyfer storio'n lân gyfarpar, offerynnau a chynhyrchion a ddefnyddir ar gyfer triniaethau arbennig, neu mewn cysylltiad â hwy, er mwyn atal y risg o halogiad.

(8) Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod pecynnau cymorth cyntaf sydd wedi eu stocio'n addas ac sydd ar gael yn rhwydd yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd ac sy'n diwallu anghenion cymorth cyntaf y triniaethau arbennig sy'n cael eu rhoi a nifer y deiliaid trwydded sy'n gweithredu yn y digwyddiad.

(9) Rhaid i'r goleuadau fod yn addas ac yn ddigonol i sicrhau bod y fangre neu'r cerbyd yn gweithredu'n ddiogel ac i hwyluso gwaith glanhau a diheintio effeithiol. Pan fo angen, rhaid darparu goleuadau lleol ym mhob gweithfan i sicrhau bod y driniaeth arbennig yn cael ei rhoi yn ddiogel ac yn hylan.

(10) Rhaid darparu awyriad digonol i'r man gwaith triniaethau arbennig.

(11) Rhaid darparu nifer addas o fasnau golchi dwylo sydd ar gael yn rhwydd yn y man gwaith triniaethau arbennig i'w defnyddio gan y deiliaid trwydded. Rhaid i'r basnau golchi dwylo weithio'n iawn a bod mewn cyflwr da.

(12) Rhaid i fasnau golchi dwylo a ddefnyddir gan ddeiliaid trwydded gynnwys cyflenwad digonol o ddŵr rhedegog poeth ac oer neu gymysg, sebon hylif a thywelion papur wedi eu storio mewn cyflenwr caeedig sy'n agos i'r basn golchi dwylo.

(13) Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod yr holl fasnau golchi dwylo at ddefnydd y deiliaid trwydded wedi eu stocio'n llawn â sebon hylif a thywelion papur drwy gydol yr arddangosfa, yr adloniant neu'r digwyddiad.

(14) Ni chaniateir defnyddio basnau golchi dwylo ond at ddibenion golchi dwylo ac elinau.

### Dihalogi, glanhau, diheintio a sterileiddio

**5.**—(1) Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd (neu bob rhan o'r fangre neu'r cerbyd y mae'n gyfrifol amdani) yn cael ei chadw neu ei gadw'n lân ac yn daclus drwy'r amser.

(2) Rhaid gweithredu amserlen lanhau sy'n addas ac yn ddigonol ar gyfer y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd.

(3) Rhaid darparu cyfarpar, cyfleusterau a threfniadau ar gyfer dihalogi, glanhau, diheintio a, phan fo angen, sterileiddio teclynnau gwaith, offerynnau ac eitemau eraill. Rhaid gwahanu'r ddarpariaeth hon oddi wrth yr holl weithfannau, a rhaid iddi adlewyrchu'r triniaethau a roddir yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd.

(4) Pan na ellir darparu cyfarpar, cyfleusterau na threfniadau ar gyfer dihalogi, glanhau diheintio a, phan fo'n ofynnol, sterileiddio teclynnau gwaith, offerynnau ac eitemau eraill, rhaid gweithredu polisi defnydd untro.

(5) Rhaid defnyddio, cynnal a gwasanaethu'r holl gyfarpar a ddefnyddir at ddiben glanhau, diheintio neu sterileiddio yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a rhaid cael cofnodion ar ffurf dogfen i ddangos bod y profion ansawdd priodol wedi eu cynnal i ddilysu defnydd o'r cyfarpar hwnnw.

### Gwastraff gan gynnwys offer miniog

**6.**—(1) Rhaid gwneud darpariaeth addas ar gyfer casglu, storio a gwaredu gwastraff a sbwriel arall.

(2) Rhaid i ddeiliad y dystysgrif ddarparu nifer addas o finiau offer miniog a sicrhau eu bod mewn lleoliad diogel yn agos i'r holl weithfannau.

(3) Rhaid darparu nifer digonol o finiau gwastraff hawdd eu glanhau, nad ydynt yn cael eu gweithredu â llaw, yn y man triniaethau arbennig a rhaid iddynt fod wedi eu hadeiladu'n briodol a chael eu cadw mewn cyflwr da a glân.

(4) Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod darpariaeth addas wedi ei gwneud ar gyfer gwaredu gwastraff domestig a gwastraff clinigol nad yw'n beryglus, ac ar gyfer eu storio ar wahân.

(5) Rhaid marcio tarddle (enw a chyfeiriad y busnes) yr holl wastraff clinigol nad yw'n beryglus (bagiau gwastraff melyn a biniau offer miniog melyn) cyn eu gwaredu.

(6) Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod y gwastraff clinigol, nad yw'n beryglus (bagiau gwastraff melyn a biniau offer miniog melyn) yn cael ei gasglu gan gludwr gwastraff trwyddedig. Rhaid cadw cofnod o wastraff rheoledig a draddodir yn y fangre neu'r cerbyd a rhaid iddo fod ar gael i'w arolygu gan swyddog awdurdodedig.

**Diffiniadau**

ystyr "amodau trwyddedu mandadol" ("*mandatory licensing conditions*") yw'r amodau y mae trwydded triniaeth arbennig yn ddarostyngedig iddynt;

ystyr "bin offer miniog" ("*sharps bin*") yw cynhwysydd anhyblyg, arbenigol sy'n cydymffurfio â Chod CGE 20 01 99(**1**) ac sydd wedi ei gynllunio i waredu'n ddiogel offer miniog sy'n gysylltiedig â rhoi triniaethau arbennig;

ystyr "gweithfan" ("*workstation*") yw'r rhan o'r man gwaith triniaethau arbennig sy'n cynnwys y canlynol—

(a) gwely, cadair neu gyffelyb, y mae cleient yn eistedd neu'n gorwedd arno neu arni i gael triniaeth arbennig a roddir gan ddeiliad trwydded,

(b) cadair neu stôl y mae deiliad y drwydded yn eistedd arni i roi'r driniaeth arbennig (os yw'n gymwys), ac

(c) arwyneb gwaith a ddefnyddir ar gyfer gosod a storio'r offerynnau a'r cynhyrchion a

---

(**1**) Cod chwe digid yw Cod Catalog Gwastraff Ewropeaidd ("CGE") a ddefnyddir i nodi gwastraff (gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus) fel y'i rhestrir yn y Catalog Gwastraff Ewropeaidd. Mae Cod CGE yn nodi (ymhlith pethau eraill) y rheolaethau sy'n gymwys i symud a rheoli'r gwastraff. Mae Cod CGE 20 01 99 yn ymwneud â gwastraff clinigol heintus a pheryglus fel y nodir ar dudalen 47, paragraff 4.99 o Femorandwm Technegol Iechyd Cymru. *Gweler* https://nwssp.nhs.wales/ourservices/specialist-estates-services/specialist-estates-services-documents/whtms-library/whtm-07-01-safe-management-of-healthcare-waste-pdf/ (ar gael yn Saesneg yn unig).

ddefnyddir gan ddeiliad y drwydded i roi'r driniaeth arbennig;

ystyr "offer miniog" ("*sharps*") yw gwrthrychau neu offerynnau sy'n gallu torri, crafu, pricio neu achosi anaf i'r croen ac mae'n cynnwys pob math o nodwydd a rasel untro;

ystyr "man gwaith triniaethau arbennig" ("*special procedures work area*") yw ardal neu ystafell ddynodedig a ddefnyddir at ddiben rhoi triniaeth arbennig, ac o ran man gwaith triniaethau arbennig—

(a) rhaid iddo gynnwys o leiaf—

(i) 1 weithfan,

(ii) 1 basn golchi dwylo,

(iii) 1 bin gwastraff,

(iv) 1 bin offer miniog (os yw'n gymwys), a

(b) caiff hefyd gynnwys cyfleusterau eraill a chyfarpar arall i gefnogi'r gwaith o roi'r driniaeth arbennig;

ystyr "sicrwydd yswiriant" ("*insurance cover*") yw polisi yswiriant atebolrwydd cyhoeddus dilys a ddyroddwyd gan yswiriwr awdurdodedig i yswirio'r ceisydd mewn perthynas â'r fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd;

mae i "swyddog awdurdodedig" ("*authorised officer*") yr ystyr a roddir yn adran 83 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017;

mae i "trwydded triniaeth arbennig" ("*special procedure licence*") yr ystyr a roddir yn adran 59 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017;

ystyr "yswiriwr awdurdodedig" ("*authorised insurer*"), mewn perthynas â pholisi yswiriant, yw person a gaiff gynnal yn y Deyrnas Unedig y busnes o roi effaith i gontractau yswiriant, neu o gyflawni contractau yswiriant, o'r math a ddarperir o dan y polisi yswiriant.